# Y DINESYDD

Mawrth 2020 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 445 £1




**Dociau'r Barri yn 1939**
**tud. 3**



**Tabernacl Y Barri**
**tud. 19**



**Plant Ysgol Gwaelod–y-Garth yn canu gyda Hana 2K ar Ddydd Miwsig Cymru tud. 18**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Eiry Palfrey**

***Golygydd Ebrill***
***Hefin Mathias***

Cyfraniadau erbyn 27 Mawrth i:
hefinmathias@hotmail.co.uk
13, Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 2AR
029 20311340

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd

## PARC PORTHCERI – Y BARRI

Y tro nesa y dewch chi draw i fwynhau traethau gogoneddus y Barri, rhowch awr neu ddwy heibio i grwydro trwy Barc Porthceri; un o gyfrinachau dirgel y Barri – sef dros 200 erw o goedydd, llwybrau a chaeau yn llawn bywyd gwyllt cadwedig, a phont reilffordd anhygoel. Ewch yn eich car i gyfeiriad Y Cnapan (Cold Knap), peidiwch â throi, ond ewch ymlaen ychydig cyn troi i'r dde, a disgyn yn araf i'r Parc.

Fe gafodd y teulu Romilly afael ar y tiroedd toreithiog glan-môr hyn ym 1412 ac adeiladu stâd, tŷ crand, gweithdai a theios i'r gweithwyr. Wedi iddo ddiriwio prynwyd y tir ym 1929 gan Gyngor y Barri, ac aethpwyd ati i'w ddatblygu'n barc i'r trigolion lleol.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd defnyddiwyd y Parc gan filwyr o Brydain ac America wrth iddynt baratoi ar gyfer D-Day, ac fe drosglwyddwyd dros 15,000 tunnell o offer a 4,000 o filwyr o ddociau'r Barri i Normandy ar y diwrnog tyngedfennol hwnnw.

Plannwyd coedwig yn y 1950au ac ym 1976 cyhoeddwyd y Parc yn Barc Gwledig, gan warched nifer fawr o fathau o fywyd gwyllt prin a diddorol. Daw dros 250,000 o ymwelwyr i'r Parc bob blwyddyn i fwynhau'r golygfeydd, yr hanes, ac i ymlacio. Mae yno gaffi gan yr enwog Mario o sioe Gavin and Stacey, ac un o eiconau'r Barri, y bont reilffordd Fictoraidd gain, a adeiladwyd yn y 1890au ag sy'n dal i gludo trenau ar lein Bro Morgannwg.

Gellwch lawrlwytho 'app' ffôn (yn Saesneg yn unig hyd yma) sy'n defnyddio GPS i'ch tywys o gwmpas y Parc. Dewch draw am dro, am bicnic, am hwyl ac i ddysgu am goed, planhigion, anifeiliaid – a straeon difyr am wrachod a dynion drwg!



## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# ENWAU DIFYR
# ARDAL Y BARRI
## Ann Jones

**Y Barri**

Roedd yr enw'n bod cyn oes Gerallt Gymro (g 1146). Dywedai fod ei deulu 'de Barri' - wedi cymryd yr enw o'r ardal. Awgrymir mai o enw nant - Barren - y daw enw'r dref. Yr enw ar y culfor rhwng Ynys y Barri a'r tir mawr oedd Aber Barri.

**Y Bwtril**

Cymreigio'r enw Saesneg 'Buttrills' sydd yma - sef '*butter*' a *'hills'*- h.y. bryniau a phorfeydd gwelltog ar gyfer cynhyrchu menyn.

**Heol Holton**

Ffermdy oedd 'Holton' yn cynnwys dwy elfen o'r Hen Saesneg - sef '*Hol*' - 'pant' a *'ton'* - 'fferm'. Felly fferm yn y pant.

**Cold Knap**

Mae'n bosibl mai camgymryd '*cold*' am '*coal*' sydd yma. Roedd yma *'coal-pits'* - gweithfeydd yn cynhyrchu golosg. Hefyd roedd fferm o'r enw The Coale yn yr ardal. Ystyr yr elfen '*Knap*'' yw 'bryncyn'.

**Y Colcot**

Yn hen Saesneg ystyr *'col'* yw glo neu olosg - a *'cot'* yw adeilad ar gyfer cynhyrchu deunyddiau. Mewn hen ddogfennau ceir yr enw *The Coal Hill* ar y tir sy'n disgyn o'r Colcot tua'r lle saif Eglwys Merthyr Dyfan.

**Merthyr Dyfan**

Daw'r elfen gyntaf o'r Lladin '*martyrium*' sef man wedi'i gysegru i esgyrn sant - neu 'eglwys'. Nid y gair 'merthyr' yn golygu '*martyr'* sydd yma. Wyddon ni ddim pwy oedd Dyfan ond mynnai Iolo Morganwg mai hwn oedd y Dyfan a ddaeth i Brydain gyda Ffagan yn yr ail ganrif. Ond does dim prawf.

**Highlight**

Roedd pentref Uchelolau yn yr ardal hyd ddiwedd y G16. Ymddangododd y ffurf 'Highlight' yn ystod teyrnasiad Elizabeth I. Cyfieithad llythrennol - a hwnnw'n anghywir! Mae 'uchel' yn gywir; ond nid 'golau' - *'light'*- yw'r ail elfen, ond lluosog y gair 'ôl' ('olion' heddiw). Yr ystyr yw 'trywydd','trac' 'ffordd'. Felly ystyr 'Uchelolau' yw ffordd uchel ar lethr neu gefnen o dir - sef '*Ridgeway*'.

**Clwb Golff Brynhill**

Enghraifft o enw cyfansawdd o ddwy elfen o'r un ystyr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Enghreifftiau eraill yw Garnhill a Bryndown (ger Dinas Powys sydd wedi'i newid i Bryn-y-Don erbyn hyn).

# FFILM AM UN
# O BLANT Y BARRI

Ffilm sydd i'w gweld ar hyn o bryd yw '*Mr Jones'* sef hanes y newyddiadurwr Gareth Jones. Ganed Gareth Jones yn 1905 yn y Barri. Roedd ei dad Edgar Jones yn brifathro ar Ysgol Ramadeg y Barry a'i fam Annie Gwen Jones wedi gweithio yn Rwsia fel tiwtor i blant Arthur Hughes, mab y diwydiannwr dur John Hughes (o Ferthyr) gŵr a sefydlodd Hughesovska (Donetsk heddiw), un o drefi mwyaf yr Wcrain.

Roedd Gareth Jones yn ieithydd ac yn newyddiadurwr disglair iawn. Llwyddodd i gyfweld â Hitler a roedd am gyfnod yn Gynghorydd Materion Tramor i David Lloyd George. Ym 1933 fe ddarganfyddodd fod brodorion yr Wcrain yn dioddef o newyn enbyd, a hynny oherwydd fod Stalin, er mwyn lladd eu hymgyrch am annibyniaeth, wedi dwyn eu gwenith a bwydydd eraill a gadael iddynt newynu i farwolaeth. Proses a alwyd yn Rwsia yn '*Holodomor'* sef 'newyn a grewyd gan ddyn'. Bu farw miloedd o Wcraniaid fel canlyniad. Ystyrir Gareth Jones yn arwr yno hyd heddiw oherwydd iddo dynnu sylw'r byd at y sefyllfa.

Cafodd waith amhosib i ddarbwyllo'r awdurdodau am y newyn, gwadwyd ei stori gan wleidyddion a'r cyfryngau. Cafodd ei wahardd o Rwsia, a fe aeth i'r Dwyrain pell, ac yn China fe'i carcharwyd gan ysbeilwyr. Ym 1936, ddiwrnod cyn ei ben-blwydd yn 30 fe'i saethwyd i farwolaeth.

Mae'r ffilm yn werth ei gweld a pherfformiad James Norton fel Gareth Jones yn arbennig. Cyfarwyddwraig y ffilm yw Agnieszka Holland o wlad Pwyl, ac fe wnaeth waith ardderchog ar wahan i'r ffaith na sylweddolodd fod yn y cyfnod hwnnw un o ddociau mwya'r byd yn y Barri, yn hytrach na phentref bach gwledig glan môr fel y'i portrëir yn y ffilm. Roedd Castell Sain Dunwyd yn edrych yn ddieithr iawn hefyd!

*(Llun o ddociau'r Barri yn 1939 ar y clawr)*




# Merched y Wawr Bro Radur

Cawsom noson wrth ein boddau yng nghwmni'r arbenigwraig mewn Cadwraeth Tecstilau, Branwen Roberts. Wedi ei magu yng Nghaerdydd a mynychu ysgolion Bryntaf a Glantaf, dilynodd gwrs gradd Celfyddyd a gradd meistr mewn Cadwraeth Tecstilau. Bu'n gweithio yn Hampton Court am nifer o flynyddoedd. Ysytyr 'cadwraeth' yw atal dirywiad mewn dilledyn/ eitem tecstil, nid ei droi yn eitem 'newydd'.



Cawsom ychydig o hanes Hampton Court a gweld lluniau o'r Neuadd Fawr lle mae tapestrïau anferth yn dangos bywyd Abraham. Fe'u gwnaethpwyd yng Ngwlad Belg o wlân, sidan ac edau aur ac arian. Ystyriwyd tapestrïau yn symbolau o statws ac roeddynt yn hynod o werthfawr. Ar ôl cannoedd o flynyddoedd mae eu cyflwr wedi dirywio a'r lliwiau yn pylu.

Eglurodd Branwen y broses fanwl o dynnu'r tapestri i lawr o'r Neuadd a'i symud i'r gweithdy i'w olchi a'i gryfhau drwy wnio lliain ar ei gefn. Roedd angen sgaffaldiau i dynnu'r tapestri i lawr a bu raid i Branwen ateb ambell gwestiwn yn ei chyfweliad ar ben sgaffold! Yn Hampton Court mae'r stiwdio Gadwraeth fwyaf ym Mhrydain ac mae sawl tîm yn gweithio ar y tapestrïau a'r dilladau sydd yno.

Bu Branwen yn gweithio ar Arddangosfa '*Fashion Rules'* yn 2013, oedd yn dangos gwisgoedd Y Frenhines, a'r tywysogesau Margaret a Diana. Roedd rhaid leinio'r gwisgoedd â sidan, eu gosod ar fanecwin perspecs, gosod wadin oddi fewn a 'stockinette' a sgert gotwm gyda 'hoop' i ddal siap y wisg.

Soniodd Branwen am y cysylltiad agos rhwng Blanche Parry (1507/8 – 1590) ac Elisabeth 1. Yn ôl traddodiad lleol cysylltwyd enw Blanche gyda'r sidan brodiog fu'n gorchuddio'r allor yn eglwys Bacton am lawer canrif. Mae'n debyg i'r ffabrig yma fod yn un o wisgoedd Elisabeth I a'r unig enghraifft sydd ar gael heddiw o wisg frenhinol Elisabeth o'r 16eg ganrif.

# Merched y Wawr Y Felin

Y TEILIWR BACH

Catherine Davies o'r Eglwys Newydd yw hon a hi yw'r 'Teilwr Bach'. Mae hi'n arbenigo mewn Teilwriaeth, Gwisgoedd a Ffasiwn.

Pleser oedd gwrando arni'n trafod sut yr aeth ati i hyfforddi mewn sawl gwlad. Astudiodd Deilwriaeth Diwydiannol yn y Ffindir ac yna cafodd radd Meistr mewn Cynllunio Gwisgoedd ar gyfer Theatr, Opera a Sinema yn Barcelona. Fel canlyniad mae Catherine yn siarad Swedeg, Sbaeneg a Chatalaneg.



Bu'n gweithio gyda Theatr Glyndebourne, Opera Tallin yn Estonia, Sherman Cymru yng Nghaerdydd ac mewn theatrau fel Hijinx a Taking Flight sy'n cynllunio gwisgoedd ar gyfer actorion ag anableddau.

Mae hi'n ymfalchïo mewn cefnogi a dathlu hanes a diwydiant gwlân Cymru. Gan dynnu ar ei phrofiadau, aeth ati i wneud cotiau hardd a ffasiynol o hen flancedi.

Mae'r 'Teilwr Bach' yn torri patrymau ei hun gan gynnig gwasanaeth 'mesur cywir' i bobl ag anghenion corfforol arbennig. Mae'r cynnyrch, sydd o ansawdd uchel, wedi eu gwneud mewn ffordd bwyllog gan ddefnyddio technegau traddodiadol sy'n deg i'r amgylchfyd.

Gwelodd y gallai redeg gweithdy gwnïo i wneud y cotiau mewn cydweithrediad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan roi cyfle iddynt hwythau ddysgu sgiliau teilwriaeth. Trafododd y syniad gydag Oasis yng Nghaerydd a bu'n llwyddiannus i dderbyn grantiau i ariannu'r prosiect.

Os oes hen flanced Gymreig gyda chi i'r prosiect hwn (does dim ots o gwbwl os oes rhwygau a thyllau ynddi hi) bydd Catherine yn ddiolchgar dros ben i'w derbyn. Hyd yn hyn mae'r ymateb wedi bod yn ardderchog.

Bydd y prosiect yn parhau tan fis Mehefin pan fydd dathliad arbennig i gyd-fynd ag wythnos y ffoaduriaid.

Os ydych am archebu cot, cysylltwch â Catherine. info@teiliwrbach.com

# Merched y Wawr Caerdydd

Byddech wedi medru clywed pin yn disgyn wrth i ni ymgolli yn sain gitâr Rhisiart Arwel. Aeth â ni i bedwar ban byd drwy gyfrwng cerddoriaeth ddawns, gwerin a chlasurol. Difyr oedd cael hanes y gitâr, y cyfansoddwyr a rhai o'r darnau ynghyd â pheth o hanes Rhisiart ei hun sydd yn gwmnïwr mor agos atoch. Roedd nifer wedi eu cyffwrdd wrth wrando ar "Pader", darn a gyfansoddodd Rhisiart ei hun er cof am ei fam. Bu cryn drafod ar sut i gadw'r bysedd mor ystwyth a chafwyd gwers *'manicure'* annisgwyl ar ofal ewinedd y llaw dde! Pwy fase'n meddwl?



# Cymrodorion Y Barri

Agorodd ein tymor ym mis Medi gyda noson yng nghwmni'r gantores Heather Jones. Swynwyd y gynulleidfa gan ei llais hudolus a'i hatgofion o berffomiadau a digwyddiadau dros y blynyddoedd.

Ym mis Hydref symudodd y gymdeithas i'w chartref newydd yn Llyfrgell y Barri. Catrin Stevens oedd y gwestai, mewn noson a noddwyd gan y Llyfrgell. Clywsom am y gwaith o gofnodi atgofion gwragedd Cymru o'u dyddiau yn y byd gwaith.

Helen Morfydd Young ddaeth atom ym mis Tachwedd - gyda hanes ei thaith o swydd Efrog, lle y cafodd ei magu, i Abertawe - gan feistroli'r Gymraeg ar y ffordd. Roedd y ddeuoliaeth yn ei magwraeth yn amlwg iawn - ei mam yn un o ferched balch swydd Efrog a'i thad yn Gymro Cymraeg - a siaradai Gymraeg gyda Helen yn gyson - ac er na allai ei ateb, daeth i ddeall nifer o frawddegau'n gynnar iawn.




Ym mis Rhagfyr rhoddodd ein Llywydd Ann Jones, olwg newydd a ffres ar hanes y Geni.

Un o drigolion newydd y Barri, y cerddor Euros Rhys ddaeth atom ym mis Ionawr - gyda sgwrs ar 'Cerddoriaeth heb eiriau'. Cawsom ein gwefreiddio gan nifer o enghreifftiau a berffformiwyd ganddo.

Cawsom olwg ar hanes Uzbekistan, a Llwybr y Fasnach Sidan - y Silk Road - ym mis Chwefror, gan Colin Williams. Roedd gwychder yr adeiladau a harddwch y wlad yn agoriad llygad i lawer o'r gynulleidfa.

Carys Whelan oedd y prif westai yn y Cinio Gŵyl Ddewi, a gynhaliwyd yng Nghlwb Golff Gwenfô - noson hwyliog a diddorol.

Ym mis Mawrth byddwn yn croesawu Cennard Davies atom ac ym mis Ebrill bydd aelodau'r gymdeithas yn cael eu tywys o gwmpas Eglwys Llancarfan gan yr Athro Madeleine Gray. Ym mis Mai, daw'r tymor i ben gyda Brethyn Cartref o Noson Lawen yng Nghanolfan Palmerston.

**EWYLLYSIAU YN Y GYMRAEG**

**Ruth C. Jones LL.B.(Hons)**

**ruthcjones25@aol.com**



# Cymrodorion Caerdydd



*Yr Athro Ceri Davies gyda R. Alun Evans, Llywydd y Cymrodorion*

I ddathlu pedwar canmlwyddiant cyfieithiad 1620 o'r Beibl Cymraeg ('Beibl Parry') cawson ddarlith gan yr Athro Ceri Davies - *'Dr John Davies, Mallwyd a Beibl 1620'.* Enw'r Esgob Richard Parry (Llanelwy) sydd wrth y rhagair i Feibl 1620, a'r awgrym yw mai ef a'i cyfieithodd, ond barn ysgolheigion yn gyffredinol yw mai ei frawd yng nghyfraith, Dr John Davies, rheithor Mallwyd, a wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith. Dyma'r argraff a roddir gan Gwynn ap Gwilym yn ei nofel *Sgythia*.

Mab i wehydd o Lanferres, Sir Ddinbych, oedd John Davies; daeth i gysylltiad yn gynnar â William Morgan, pan oedd yn ficer Llanrhaeadr ym Mochnant, lle y cwblhaodd ei gyfieithiad yn 1588. Fe aeth Davies i Goleg Iesu, Rhydychen, lle cafodd yrfa academaidd ddisglair. Fel Morgan, roedd Davies yn rhagori yn ei feistriolaeth o'r iaith Hebraeg. Ar ôl cyfnod Rhydychen, fe aeth i wasanaeth Morgan pan oedd yn Esgob Llandaf, a phan y'i trosglwyddwyd i Lanelwy, fe aeth Davies gydag ef. Ychydig cyn ei farw yn 1604, sefydlodd Morgan John Davies yn Reithor Mallwyd.

Treuliodd John Davies rhai o flynyddoedd gorau ei fywyd yng nghwmni William Morgan, ac fe'i trwythwyd yn egwyddorion uchaf cyfieithu. Fel rhan o'i gyflwyniad dangosodd Ceri Davies enghreifftiau o adnodau ym Meibl 1588 a Beibl 1620.

Roedd Davies hefyd yn arloeswr yn yr astudiaeth o'r iaith Gymraeg. Cyhoeddodd ramadeg yn 1621, a geiriadur yn 1632, y ddau yn yr iaith Ladin, er mwyn dwyn yr iaith i sylw ysgolheigion Ewrop.

Ni chafodd John Davies, Mallwyd, (c.1567 – 1644) sylw haeddiannol dros y canrifoedd, ond gyda nofel Gwynn ap Gwilym a dathliadau 2020 gobeithio y gwneir yn iawn am hynny. Arwydd o'r diddordeb cynyddol sydd ynddo yw'r gynulleidfa luosog a ddaeth i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn y Tabernacl.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ddechrau'r mis daeth Siw Huws, yr actores amryddawn a siaradwraig fyrlymus atom. Cafodd ei geni a'i magu yn Llangefni a Bangor; a'i meithrin yn ifanc ym myd y Ddrama. Cofir hi fel Poli Garter yn "*Dan y Wenallt*"; yn "*Minafon*";, gyda Theatr Bara Caws; "*Ffalabalam*";, rhaglenni Caryl Parry Jones;, "*Licrys Orlsorts*" a llawer mwy. Aeth i Lundain i hyfforddi ymhellach gyda Sam Coggan. Enillodd BAFTA Cymru am yr actores orau yn 2014, a gwobr gan y rhaglen *CYW* – anrhydeddau sy'n bwysig iawn iddi. Hi yw Kath Jones "P*obl y Cwm*" ar hyn o bryd. Daeth i'r Aelwyd, wedi bore prysur o ffilmio yng ngwisg Kath – prynhawn hwylus iawn!

Chwefror 19eg, bu'r Athro E. Wyn James, yr hanesydd, yn arwain y gynulleidfa trwy'r camau a arweiniodd yn 1620 at ddiwygiad Beibl William Morgan gan yr Esgob John Davies. Dechreuodd gyda William Salesbury, a gyhoeddodd ei "*Kynniver Llith a Ban*" yn 1551, a'i ddilyn yn 1567 gyda chyfeithiad o'r Testament Newydd. Salesbury oedd y cyntaf i gyhoeddi "*Mynnwch yr Yscrythyr yn eich Iaith*" yn 1547. Roedd pwyslais Salesbury ar addysg ac arweiniodd hynny at roi urddas a statws i'r Iaith Gymraeg. Clywsom am gyfnod y Tuduriaid o Harri'r VII (1485-1509) hyd at gyfnod Elizabeth (1558-1603). Dangosodd nad oedd unryw dystiolaeth fod y Tuduriaid yn erbyn y Gymraeg. Edward VI, mab Harri'r VIII, oedd y cyntaf i roi pwyslais ar Brotestaniaeth, a newidiodd iaith y Beibl o'r Lladin i'r Saesneg. Elizabeth a gytunodd yn gyfreithiol yn 1563 "*An Act for the translation of the Bible and Divine Services into the Welsh Language*", a dilynwyd hyn gan gyfeithiad o'r Llyfr Gweddi Cyffredin. Roedd iaith William Salesbury ymhell o fod yn ramadegol gywir, a dyna pam yr aeth John Davies ati i'w gywiro a chyhoeddi'r Beibl yn ei Ddiwyg Newydd yn 1620.



***Siw Huws***

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# CERDYN POST O BANGKOK

## Lowri Haf Cooke yn holi Tamsin Ramasut

***Mae Tamsin Ramasut yn berchennog ar fwyty Bangkok Cafe yn Nhreganna. Mae hi a'i gŵr Steve a'u plant Lili (12 oed) a Morgan (sy'n 9) yn byw yn Nhreganna.***



**Un o ble ydych chi'n wreiddiol yng Nghaerdydd a pha atgofion sydd gyda chi o'r faestref honno?**
Ges i fy magu ym Mhenylan tan o'n i'n 14 oed – gyferbyn â chae mawr *'rec'* y Rhath. Ro'n i'n mynd â'r cŵn am dro ar hyd y nant, a chwarae gyda fy mrawd a chwaer yn y parciau lleol. Ro'n i'n caru prynu *stickers* o siop Dansk ar Heol Wellfield, a hufen iâ o Thayers. Ar ganol fy arddegau fe symudon ni i'r Eglwys Newydd, oedd yn nes at Ysgol Glantaf. Ro'n i siomedig ar y pryd, ond roedd y tŷ newydd ar Church Road yn gymdeithasol iawn, ac yn gyfleus i fy ffrindie ysgol alw heibio.

**Beth yw'ch perthynas chi â dinas Bangkok, a pha mor aml fyddwch chi'n teithio yno?**
Mae Noi, fy nhad, yn wreiddiol o Bangkok, ac fe gwrddodd e â Mam – Arlene, sy'n wreiddiol o Fro Morgannwg - tra roedd hi'n dysgu Saesneg yno. Treuliais i ngwyliau fel plentyn gyda'r teulu yn Bangkok, a bues i'n byw yno am flwyddyn wedi gadael yr ysgol. Wedyn ar ôl graddio o Brifysgol SOAS yn Llundain es i weithio gyda'r Cenhedloedd Unedig yno, a threulio blwyddyn arall yno ar ôl dilyn gradd Meistr mewn Cynllunio Datblygu Dinesig yn UCL. Cyn cael plant ro'n i'n ymweld â Bangkok bob blwyddyn, ac mae Morgan a Lili wedi bod yno rhyw bedair gwaith. Fe aeth 14 ohonon ni yno o Gaerdydd yn ddiweddar ar gyfer pen-blwydd arbennig Kun Ya (Mamgu). Pan fyddwn ni yno, ryn ni'n aros yng nghartre'r teulu yn Ari – ardal *'hip'* llawn bwytai a marchnadoedd ac yn gyfleus i ddal y *'Sky Train'*.

**Beth yw eich barn chi am ddinas Bangkok?**
Dwi'n hoff iawn o egni'r ddinas - mae'r plant hefyd wrth eu boddau yno, ac yn cael eu sbwylio'n rhacs gan y teulu! Mae'n le deinamig dros ben, gyda rhywbeth newydd i'w ffeindio bob tro. Mae'n ddinas enfawr, sy'n gweithio ar sawl lefel (yn llythrennol) – metropolis go iawn. Mae'r *'shacks'* ar y gwaelod gyda'r 'bwyd stryd', yna awyr-grafwyr Americanaidd, siopau a *'malls'* a'r *'elevated expressways'* – mae pethe mor *hi-tech*. Yn amlwg, mae 'na demlau a phalasau brenhinol, ond ar wahan i'r rheiny does dim cysyniad o gynnal ac adfer hen adeiladau yno. Mae ardal draddodiadol fel 'Chinatown' yn *'low-rise'*, ond mewn ardal fel Sathorn, mae'r bobol gefnog yn byw ac yn gweithio fry uwchben, yn teithio yn eu ceir neu ar y *'Sky-Train'*. Mae'r traffig yn ofnadwy. Pan o'n i'n iau o'n i'n arfer neidio ar dacsi beic modur, a reidio *'side-saddle'* ar hyd y sois (y lonydd bychain oddi ar y priffyrdd). Roedd hynny'n hala Mamgu yn wallgo!

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Bangkok...**
Deffro yng nghartre'r teulu a mwynhau brecwast o ffrwythau ffres fel mango, pinafal a rambutan. Nofio yn y pwll, a falle cerdded i Ari am *massage* cyn cael cinio'n lleol yn y Greyhound Cafe. Mynd â'r plant am dro i'r dre, a hwylio ar un o'r cychod *longtail* ar hyd afon y Chao Phraya. Nôl adre wedyn i ymlacio, a falle cwrdd â theulu neu ffrindiau am bryd fin nos. Wedi i'r plant fynd adre, 'nôl allan am goctels – dwi'n dwlu ar unrhywbeth gyda leim, fel *lemongrass margarita*.

**Pa 3 lle yn Bangkok y byddech chi'n annog rywun o Gaerdydd eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas?**
Rhaid teithio ar *longtail* ar hyd y camlasau – gewch chi gipolwg o hanes Bangkok, fel y tai pren wedi eu hadeiladu o goed *'teak'*. Cerwch i ardaloedd Yaowarat a Chinatown, sy'n llawn caffis a marchnadoedd – mae ardal *'hip'* Thom Lo yn ddifyr hefyd. A rhaid profi *food-court*. Ma 'mall' Paragon yn wych, a'r dewis gwych o fwydydd yno.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yno?**
Es i gyda fy Anti am bryd bwyd ar hyd yr afon. Doedd e ddim yn lle ffansi, ond gawson ni bob math o bysgod wedi eu grilio a'u stemio, gyda salad mango gwyrdd a dresin mango. Hoff fwyty fy ngŵr yw bwyty Indiaidd y Rembrandt Hotel – mae'r tandoori *'chops'* oen a'r gerddoriaeth sitar byw yn wych, a golygfa wefreiddiol dros y ddinas.

**Beth oedd eich bwriad wrth sefydlu Bangkok Cafe, Treganna - a beth sy'n rhaid ei archebu ar y fwydlen ym mis Mawrth?**
Pan agoron ni yn 2011 roedd bwytai Thai eraill yn fwy clasurol, ac ro'n i'n benderfynol o symud pethe 'mlaen, ac yn awyddus i greu rhywle oedd yn debycach i fwytai cyfoes Bangkok, yn cynnig bwyd blasus *'authentic'* yn driw i ysbryd y ddinas. Dwi wastad yn archebu salad *Som Dam* a chawl *Dom Yam Gung* gyda nifer o seigiau eraill. Mae gyda ni gyri cig oen anhygoel, *Gang Massaman Gah Oh*, perffaith ar gyfer y gwanwyn.

**Beth yw eich barn chi am Gaerdydd?**
Dwi'n dwlu ar Gaerdydd; mae'n ddinas fechan gyda chyfleusterau dinas fawr. Ond weithie dwi'n teimlo'n rhwystredig fod y sîn annibynnol mor gyfyng. Es i Fryste i gwrdd â ffrindiau o Lundain, ac mae Bryste yn llawn bwytai bychain, a phawb mas yn bwyta ac yfed mewn llefydd lleol, annibynnol. Dwi rili yn credu bod Caerdydd ar ei cholled gyda chyn lleied o lefydd fel 'na. Ond ar y cyfan dwi wir yn gwerthfawrogi'r teimlad o gymdeithas a chyfeillgarwch sydd yng Nghaerdydd, ac yn amlwg Caerdydd yw fy nghartref. Fy mhrif ddymuniad fyddai i bawb gefnogi siopau a bwytai annibynnol!

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Cofiwch drafod gyda'ch teulu a'ch ffrindiau sydd â gorddrafftiau banc am y newidiadau sylweddol i ffioedd gorddrafft. Ystyriwch fenthyciad tymor byr i glirio'r gorddrafftiau, os yw'n rhatach.

"Dwi ddim yn ystyried fy hun yn dwpsyn." Dyfyniad gan ddarllenydd yn y Financial Times yn ddiweddar a ddioddefodd sgam. Rydyn ni'n teimlo'n siŵr nad ydych chi, y darllenwyr, yn ystyried eich hun yn dwp ond byddwch yn ymwybodol o sgamiau. Mae'r sgamiau diweddaraf yn cynnwys pobl yn ffonio sy'n honni eu bod o'r Adran Drafnidiaeth ac yn mynnu eich bod wedi bod mewn damwain yn ddiweddar ac hefyd sgamiau Amazon, trwydded teledu, HMRC, ayyb.

***Cwestiynau Huw ac Aled***: A allwch egluro'r newidiadau i'r rheolau hysbysu a thalu treth ar eiddo ar gyfer 2020?

Bydd y cyfnod y bydd yn rhaid i berchnogion ag enillion trethadwy ar eiddo preswyl ei dalu yn lleihau o 22 mis i 30 diwrnod. O 6 Ebrill 2020, bydd angen cyflwyno ffurflenni treth ar eiddo i HMRC yn brydlon, gyda'r ffurflen treth ar eiddo a'r swm yn daladwy o fewn 30 diwrnod ar ôl cwblhau'r gwerthiant. Mwy o waith sydyn i gyfrifwyr!

Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.

# Cymdeithas Cymru-Ariannin

**ESGYRN PATAGONIA**

Cafwyd noson hyfryd yn Chapter, Caerdydd gyda lluniaeth a gwydriaid o Malbec i ddathlu Gŵyl y Tri Brenin (*Dia de Reyes*) a'r Hen Galan ar Ionawr 6ed eleni, pan gawsom gyfle i weld y ffilm arobryn *The Patagonia Bones* - gan Ricardo Preve.



Cyn dechrau'r ffilm fe eglurodd Azul de Pol am y ddefod hyfryd sy'n gysylltiedig â Gŵyl y Tri Brenin yn y Wladfa. Y noson cynt bydd y plant yn rhoi eu hesgidiau y tu allan i'r drws, ac os ydyn nhw'n blant bach da mi fydd y Brenhinoedd yn eu llenwi gydag anrhegion.

Yn y ffilm ddogfen (gydag is-deitlau Saesneg) *The Patagonian Bones* adroddir yr hanes o ddarganfod bedd ym Mhorth Madryn a sut yr aethpwyd ati trwy brofion DNA i brofi mai rhain oedd gweddillion Catherine Roberts a ddaeth i'r Wladfa ar y Mimosa ym 1865.

Darganfuwyd yr esgyrn ym 1995, ond doedd hi ddim yn bosib tan yn ddiweddar i wneud y profion DNA cywir. Llwyddodd yr anthropolegydd fforensig Dr Carlos Vullo i dynnu'r DNA benywiadd o'r sgerbwd. Yna roedd rhaid chwilio am ddisgynnydd benywaidd yng Nghymru i gadarnhau mai hwn yn wir oedd bedd Catherine Roberts. Wedi hir chwilio daethpwyd o hyd i Nia Olwen Ritchie o Gerrigydrudion, ac fe gafodd hithau fynd i'r Wladfa i ymweld â chartre ei chyn-berthynas. Ffilm hynod ddifyr sydd bellach ar gael am ychydig bunnoedd trwy gwmni Amazon.

Ond ar y noson cawsom syndod a'r fraint o gwrdd ag Ann Jones o Ddinas Powys sydd hithau hefyd yn ddisgynnydd mwy agos hyd yn oed na Nia i Catherine Roberts, ond ar adeg y ffilmio roedd hi'n amhosib i Ann fynd i'r Wladfa oherwydd salwch ei gŵr, ac fe aeth Nia yn ei lle.

Noson i'w chofio.

# Shnwcs yn John Lewis

Byddai derbyn galwad ffôn oddi wrth dîm marchnata John Lewis yn gwireddu breuddwyd unrhyw siop fach annibynnol; a dyna'n union ddigwyddodd i Sara, sy'n byw yng Nghaerdydd ac sy'n berchen ar gwmni *Shnwcs*.

Mae Sara yn fam llawn amser, ac yn rhedeg busnes gyda'r nos ar ôl amser gwely'r plant, yn cynhyrchu anrhegion chwaethus Cymraeg i famau newydd. Cardiau Camau Cyntaf (cardiau *milestones*), prints cymraeg, cardiau cwpwrdd babi, a nwyddau Cymraeg ar gyfer partïon *baby shower* (neu Parti Bwmp!).

Cysylltodd John Lewis â *Shnwcs* yn uniongyrchol yn gofyn iddynt addurno eu hardal bwydo/newid babi yn eu siop yng Nghaerdydd. Roedd John Lewis hefyd wedi roi cyfle i *Shnwcs* arddangos eu gwaith mewn stondin *pop up* ar lawr y siop dros wythnos gyntaf mis Mawrth, yn ystod adeg prynu a gwerthu anrhegion Sul y Mamau.

Tro nesa y byddwch chi yn John Lewis, ewch lan i'r llawr uchaf i weld gwaith Sara. Neu os ydych am brynu unrhyw un o'r nwyddau bydd y stondin *pop up* yn y siop o'r 9fed o Fawrth am wythnos gyfan. Mae *Shnwcs* hefyd yn gwerthu'r cyfan ar wefan *Etsy*, ac mewn siopau lleol yn y ddinas - *Bodlon, Cant a Mil Vintage, Coopers,* ac Insole Court.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 17eg o Chwefror 2020 cawsom ddarlith gofiadwy iawn gan Keith Jones o'r Ymddiriodolaeth Genedlaethol. Fe'n brawychwyd yn ddifrifol gan gyflwyniad Keith ar newid hinsawdd. I ddechrau cawsom ychydig o hanes Keith, sy'n wreiddiol o Clwt-y-Bont ger Llanberis. Bu'n gweithio fel warden ar yr Wyddfa ac ar Ynys Enlli a chael nifer o swyddi eraill. Erbyn hyn mae e'n gweithio i'r Ymddiriodolaeth Genedlaethol fel arbenigwr cenedlaethol Cymru ar newid hinsawdd a materion amgylcheddol.

Soniodd am rai o gyfrifoldebau'r Ymddiriodaeth, sy'n cynnwys mwyngloddiau aur, pentrefi, cestyll, plasdai, ffermydd, coedlannau ac adrannau o'r arfordir. Mae newid hinsawdd yn cynnig heriau gwahanol i bob un o'r rhain, er enghraifft, rhaid cau rhai adeiladau rhag y cyhoedd os yw'r tymheredd tu mewn yn rhy uchel; ac mae ardaloedd arfordirol yn cael eu difrodi gan stormydd sy'n digwydd yn amlach y dyddiau yma. Pwysleisiodd Keith bod yn rhaid paratoi am newid tymheredd o ddwy radd Celsiws o leiaf, hyd yn oed os ydym yn peidio â chynhyrchu carbon deuocsid a bod y byd yn troi yn niwtral o ran carbon!

Rhoddodd Keith enghreifftiau pellach o'r problemau fydd yn gwaethygu gyda newid tymheredd y byd, pethau fel heintiau ar goed, a heintiau anifeiliaid sy'n cael eu cario gan drogod *(ticks)*. Dangosodd luniau o dai yn Nyffryn Mymbyr yn Eryri sydd ddim yn sychu fel y cynllunwyd oherwydd bod patrwm cwymp glaw wedi newid a bydd rhaid newid y rhannau o'r byd lle gellir tyfu cnydau fel tatws. Roedd y ddarlith hon yn hynod o amserol gan ysytyried y difrod ddaeth yn sgil Storm Dennis ar y penwythnos cyn y ddarlith. Gorffennodd Keith drwy ddweud na ellir gwadu bod y byd yn newid ac mae angen i bawb gynllunio am y newidiadau a ddaw yn ystod y blynyddoedd sy'n dod.

*Rhys Morris*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun, Chwefror 17 croesawodd ein cadeirydd Valmai Griffiths bawb am ddod allan wedi'r tywydd enbydus, a dywedodd ein bod fel Cymdeithas yn meddwl am y rhai a effeithwyd gan y stormydd diweddar. Llongyfarchodd bobl ieuanc yr ardal a fu'n Canu Calennig a chodi £250 tuag at elusen "*Llamau*".

Croesawyd ein siaradwr gwadd am y noson sef Eirian Edwards o Riwbeina. Thema ei sgwrs oedd "*Trysorau Romania*", ac aeth ymlaen i son am y wlad y bu'n ymweld â hi, gwlad sy'n parhau yn ddiethr i'r rhan fwyaf ohonom. Eglurodd bod safle ddaearyddol y wlad ar groesffordd ac wedi goroesi dylanwadau byddinoedd a diwylliannau o bob cyfeiriad, yr amrywiol ymerodraethau o'r gorllewin, dwyrain ac o'r gogledd, ac yn fwy diweddar creulondeb Ceausecu.

Y trysorau a welodd Eirian oedd yr Eglwysi hynod o ran pensaerniaeth ond yn fwy arbennig oherwydd y gwaith celf a'r lliwiau a oedd o fewn a thu allan i'r eglwysi. Roedd yr amrywiaeth yn hynod ac ystyr ddiwinyddol i bob un, ac yn gymorth i egluro diwinyddiaeth y Beibl i bobl ddi-lythrennog. Er hynny roedd llawer yn gyffredin i Gymru wrth gael y werin yn werin llythrennog. Diolchodd y Cadeirydd i Eirian ar ein rhan, ac atgoffodd bawb am ein Cinio Gŵyl Ddewi ar Fawrth y 9fed yng Nglwb Golff yr Eglwys Newydd gyda'r Parch. Evan Morgan yn Ŵr Gwadd.



*Eirian Edwards (ar y dde) yn ateb rhai o gwestiynau'r gynulleidfa*

**PWYSIG:**

Codwyd pris Y Dinesydd i £1 yn Ebrill 2014, rhifyn 386. Mae'n debyg bod nifer ohonoch sydd ag archebion banc o hyd yn talu £8 yn flynyddol. Os ydych yn un o'r rhain, a fyddech garediced â chysylltu gyda'ch banc i newid y taliad blynyddol i £10. Diolch yn fawr.

# TAFWYL 2020

### Gwirfoddolwyr a Digwyddiadau Ymylol

Aninnau newydd ddathlu Gŵyl ein Nawddsant, mae'n amserol i edrych ymlaen at ddathlu'r Gymraeg yr haf hwn yng Ngŵyl Tafwyl, a enillodd gategori'r ŵyl orau yng Ngwobrau Selar yn ddiweddar.

Oherwydd llwyddiant ysgubol y blynyddoedd diwethaf, gyda chynulleidfa anferthol o bron i 40,000 yn mynychu, bydd Tafwyl 2020 drwy garedigrwydd Cyngor Caerdydd, yn symud i ysblander Parc Bute dros benwythnos 19-21 o Fehefin. Mae'r trefniadau eisoes yn mynd yn eu blaenau'n hwylus, a chyn bo hir fe fyddwn ni'n cyhoeddi manylion cyffrous rhai o'r artistiaid, arlwywyr a'r stondinau fydd yn rhan annatod o'r ŵyl eleni.

Ond hanfod llwyddiant yr ŵyl yw'r gefnogaeth ymarferol a geir gan ugeiniau o drigolion Caerdydd, sy'n gwirfoddoli o'u hamser i stiwardio neu drefnu rhaglen o ddigwyddiadau ymylol ar hyd a lled y Brifddinas yn yr wythnos sy'n arwain at y penwythnos mawr.

Os oes diddordeb i wirfoddoli eleni, dros benwythnos yr ŵyl neu o bosib gyda rhywfaint o'r gwaith paratoi'r safle (bydd angen bod dros 16) yna byddem wrth ein boddau i glywed gennych chi. Fe fyddwn ni'n cynnig crys-T, taleb bwyd a gwên fawr yn gydnabyddiaeth!


Cyngerdd Tafwyl

Yn yr un modd os oes syniadau neu awydd i drefnu digwyddiad ymylol o fewn eich cymunedau lleol (cwis, pryd bwyd, cyngerdd, helfa drysor ayb), a hynny rhwng 14-19 o Fehefin, yna cysylltwch â ni i drafod syniadau.

Fel neges Dewi Sant gynt, mae gwneud y pethau bychain yn gefnogaeth enfawr ond hanfodol i alluogi Menter Caerdydd i barhau i gynnig gŵyl sydd â mynediad rhad ac am ddim.

Diolch.
Aled Wyn Phillips
aled@mentercaerdydd.cymru
029 2068 9888

## Plac glas i Iolo Morganwg o'r diwedd!

Mewn digwyddiad hir-ddisgwyliedig, bydd plac glas yn cael ei ddadorchuddio ar wal man geni Iolo Morganwg, un o arwyr diwylliannol a gwleidyddol mwyaf Cymru. Bydd Vaughan Roderick, Prif Olygydd Materion Cymreig y BBC yn tynnu'r cortyn ar gartre Iolo yn y dyfodol agos. Cynhelir y seremoni ddadorchuddio swyddogol i wahoddedigion o flaen Bryn Iolo. Bydd Jim Parc Nest yn darllen rhan o'i awdl fuddugol o Eisteddfod Genedlaethol 2019 'Gorwelion'. Bydd yr awdur Gareth Thomas yn darllen o'i lyfr *I, Iolo*.

Medd Vaughan Roderick – "Mae'n rhyfeddol ei bod wedi cymryd cyhyd i goffáu Iolo yn ei fro ei hun. Dyma unioni cam i un sydd mor fyw o hyd i gynifer o bobl."

Iolo Morganwg oedd enw barddol Edward Williams, saer maen crwydrol, bardd, hanesydd, ymgyrchydd gwleidyddol a sylfaenydd Gorsedd Beirdd Ynys Prydain. Roedd ymchwil Iolo, ei syniadau a'i ysgrifennu yn hanfodol i ddatblygiad ymwybyddiaeth cenedlaethol Cymru'r ddeunawfed ganrif – dylanwad sydd wedi para hyd heddiw.

Dyn amryddawn oedd Iolo: roedd hefyd yn amaethwr, daearyddwr, llysieuydd, casglwr hen lawysgrifau, cofnodwr alawon gwerin, storïwr, diddanwr a phleidiwr ar ran ei annwyl Forgannwg.

Saif tŷ modern ar seiliau'r hen fwthyn di-nod lle ganed Edward Williams, ac mae'r hen seiliau yn dal yn weladwy.

Yn 2019 lansiodd Cymdeithas Llancarfan apêl i godi arian i anrhydeddu'r dyn a'i gynefin. Roedd yr ymateb yn rhyfeddol.

Dywedodd y cyn Archdderwydd T. James Jones (Jim Parc Nest): "Â'i hunan-hyder rhyfeddol, byddai Iolo'n llawn edmygedd at ymdrech Cymry heddiw i ennill hunan-barch i'w gwlad yn y frwydr dros hunanreolaeth."
*(gweler llun o'r Plac Glas ar y clawr)*


Bryn Iolo - man geni Iolo Morganwg

# Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

**Ysgrifennu am Fwyd a Bywyd Gwyllt**
gyda Siân Melangell Dafydd
Dydd Sadwrn, 18 Ebrill

**Ffuglen Ffantasi a Gwyddonias**
gydag Ifan Morgan Jones
Dydd Sadwrn, 2 Mai

**Cwrs Cynganeddu**
gyda Mererid Hopwood ac Aneirin Karadog
20 - 24 Mehefin

**Mabinogion a Chwedlau Cymru**
gyda Rhiannon Ifans
Dydd Sadwrn, 17 Hydref

I archebu, ewch i: www.tynewydd.cymru
neu cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru:
01766 522 811 / tynewydd@llenyddiaethcymru.org

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Trefn yr Oedfaon** (bob Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)

**Mis Mawrth 2020:**

1 – Oedfa Gwyl Dewi (i gynnwys perfformiad o *Geiriau Olaf Dewi*)
8 – Parchg A. Pickard (Cymundeb)
15 – Parchedig R Alun Evans
22 –Parchedig Glyn Tudwal Jones
29 –Parchedig Robin Wyn Samuel

**Mis Ebrill 2020:**

5 – Parchedig Lona Roberts
10 – Oedfa Gwener y Groglith
12 – Delwyn Sion
19 – Dr Hefin Jones
26 – Oedfa'r Cwrdd Merched

Yn 1588 'roedd y criw yn chwech, ond yn saith erbyn 1781. Yn 1846 ychwanegwyd un arall, ac yn 1930 y cafodd yr olaf ei lle. Sef y Planedau – 'roedd y chwech cyntaf - y Ddaear, Mercher, Gwener, Mawrth, Iau a Sadwrn yn wybyddus i'r Asyriaid, y Babiloniaid a'r Eifftwyr, yn yr ail ganrif-ar-bymtheg cyn Crist. Wranws (1781) a Neifion (1846), a Plwton (y lleiaf ohonynt) yn 1930 yw'r gweddill.

Yn 2006, yn sgil darganfod Eris, "Duw isfyd" y Rhufeiniaid, disodlwyd Plwton i reng is.

Mae "*Geiriau Olaf Dewi*" fodd bynnag yn gyfarwydd i gynulleidfa Bethlehem, oherwydd dros yr wythnosau diwethaf buont wrthi'n ymarfer ar gyfer cyflwyniad o waith gan Eilir Owen Griffiths fel rhan o ddathliadau Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth.

Clywir "*gwnewch y pethau bychain*" a "*chedwch y ffydd*" yn diaspedain trwy furiau'r capel!

Ac yn sgil y trychinebau led-led byd, ond yn fwy diweddar ar stepen ein drws gyda'r llifogydd, mae estyn llaw o gymorth, gofalu am les ein cymdogion, a gwneud y pethau bychain wedi bod yn arwyddair ac yn ymarfer gwerth ei fabwysiadu a'i weithredu.

Deallwn y gall Plwton weld adfer ei statws fel planed cyn hir, ond diolch Dewi am ein hatgoffa o'n cyfrifoldebau beth bynnag ein maint!
Cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol yr un pryd ag amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Gwefan:www.bethlehem.cymru
Trydar (Twitter): @gwebethlehem.

## EGLWYS DEWI SANT

**Cymdeithas Nos Iau**

Cafwyd noson gymdeithasol ddiddorol a hwyliog nos Iau, 30ain Ionawr yn gwrando ar ein ficer yn sôn am ei ddiléit mewn gwneud gwinoedd cartref a'i brofiad o'u beirniadu a chystadlu mewn sioeau. Bu nifer yn ddigon dewr i'w profi a'u mwynhau.

**Taith Gerdded**

Cafwyd diwrnod hwyliog yn Aberdâr ddydd Gwener 1af Chwefror gyda'r Parchedig Hywel Davies yn tywys y cerddwyr brwd ar daith hamddenol o amgylch y dref.

**Gŵyl Cyflwyno Crist yn y Deml**

Roedd pob gwasanaeth ddydd Sul 2il Chwefror yn cadw'r ŵyl hon i nodi diwedd tymor y Nadolig a'r Ystwyll. Ar ddiwedd y gwasanaeth boreol cafwyd parti penblwydd bach i ddathlu cychwyn degawd newydd ym mywyd ein ficer. Sypreis hyfryd iddo.

**Gwasanaeth Dathliad Pob Oed**

Cynhaliwyd y gwasanaeth hwn ddydd Sul 9ed Chwefror a chanolbwyntiwyd ar 'Blwyddyn y Bererindod'. Cafodd gwrthrychau pererindod - sef Tedi y pererin, ffon, ysgrepan, chwiban a chragen Sant Iago le amlwg yn y gwasanaeth.

**Bore Coffi a Chlonc**

Daeth nifer dda ynghŷd i gefnogi'r bore coffi a chlonc fore Sadwrn, 15eg Chwefror. Da oedd gweld cymaint o fwrlwm. Cynhelir yr un nesaf dydd Sadwrn, 21ain Mawrth.

**Pererindod**

Ar fore Gwener, 21ain Chwefror aeth nifer o gynulleidfa Eglwys Dewi Sant ar eu pererindod gyntaf fel rhan o raglen 'Blwyddyn y Bererindod'. Cynhaliwyd defosiwn byr yn Eglwys Dewi Sant cyn cychwyn ar y daith i Gadeirlan Llandaf a chael gwasanaeth yn y Gadeirlan ar derfyn y daith.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parch. Dafydd Andrew Jones a Mr Emlyn Davies, ac ar Chwefror 9 roedd y gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan. Oherwydd y llifogydd, ar Chwefror 16 yn anffodus ni fedrodd y pregethwr gyrraedd Rhiwbeina ond daeth nifer o'r aelodau i'r adwy ar fyr -rybudd a chyflwyno gwasanaeth hyfryd ar y thema 'Goleuni'. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.
Rydym yn cydmdeimlo'n ddwys â Mrs Mair Davies a gollodd ei brawd yn ystod y mis diwethaf.
Ar Sul olaf y mis bach edrychwn ymlaen at groesawu Cylch Meithrin Rhiwbeina i'r capel pan fyddant yn dathlu Gŵyl Ddewi. Mae'r Cylch wedi bod ar safle Bethel ers nifer fawr o flynyddoedd bellach ac yn ddiweddar bu'n dathlu pen-blwydd yn 60 oed.
Cyfarchion pen-blwydd arbennig i Mr Gwilym Roberts, organydd Capel Bethel un a fu'n flaenllaw yn sefydlu Cylch Meithrin Rhiwbeina.
Ar Sul cyntaf mis Mawrth edrychwn ymlaen at ddathlu Gŵyl Ddewi gyda'r Parch. Glyn Tudwal Jones a chawn gyfle hefyd i gael cwmni plant yr ysgol Sul.


***Tedi'r Pererin gyda rhai o'r plant***

## EBENESER

**Llongyfarchiadau i**

...Gwilym Tudur ac Alex Sandru ar eu dyweddïad ar ddiwrnod olaf 2019.

**Gleision Ebeneser**

Mae criw o Ebeneser yn mynd yn achlysurol i weld Gleision Caerdydd yn chwarae ar Barc yr Arfau. Mae'n gyfle i gwrdd a chymdeithasu ac mae rhai'n cymryd y cyfle i gael pryd o fwyd cyn mentro ar y terasau oer. Diolch i John Hayes am gymryd y cyfrifoldeb o drefnu'r 'cefnogwyr' a chael tocynnau i bawb. Byddwn yn mynd nesaf ar nos Sadwrn 28ain o Fawrth i'w gweld yn chwarae yn erbyn y Gweilch.

**Agor y Llyfr**

Dyma gynllun newydd cyffrous gan Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd a'r bwriad yw cyflwyno hanesion Beiblaidd ar ffurf drama syml i'r plant. Mae'r tîm eisoes wedi ymweld ag Ysgol Glan Morfa ac Ysgol y Wern a chael ymateb brwd gan yr ysgol a'r plant. Mae rhagor o ymweliadau yn cael eu trefnu.

**Cwrdd gweddi Grangetown**

Cynhelir cwrdd gweddi bob nos Sul am 7:30 yn Grangetown gan aelodau Ebeneser sydd yn byw yno. Gweithgaredd cenhadol yw hwn a'r bwriad yw cyrraedd cannoedd o Gymry Cymraeg sydd yn byw yno. Os hoffech ymuno anfonwch e-bost i ebeneser@btinternet.com.

**Cydymdeimlad**

Trist oedd colli un o aelodau hynaf Ebeneser yn 95 oed, sef Betty Jones ar 5ed o Chwefror. Roedd hi wedi symud yn nes at ei mab yn Southampton. Estynnwn bob cydymdeimlad i'r teulu.

**Ymweliad cenhadwr**

Bendith fawr oedd cael cwmni Daniel Scott o Wlad y Basg yn y cwrdd gweddi ar y 10/02. Mae Daniel ar hyn o bryd yn byw yn nhref Usurbil ac wedi cychwyn cymuned Gristnogol Ymneilltuol, sef "*Kale Argia*" (Llusern). Y bwriad yw sefydlu eglwys cyfrwng Euskara (Basgeg) yno. Rhannodd gyda ni'r ffaith syfrdanol nad oes unrhyw eglwys Ymneilltuol sy'n addoli trwy gyfrwng Euskara (Basgeg) er bod dros 700,000 yn siarad yr iaith.



*Alun Tudur, Daniel Scott a John Robinson*

## MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet

Gweinidog: Y Parchg Owain Llyr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Fel arfer, bydd croeso i bawb – 'o'r ieuengaf i'r hynaf' – i'n hoedfaon ar y Sul (10:30 a 18:00). Y Gweinidog fydd yn arwain ar Ddydd Gŵyl Dewi (Cymundeb yn yr hwyr), yr oedfa foreol gynnar, yr oedfa foreol ac oedfa'r hwyr ar 8 Mawrth a'r ddwy oedfa ar 15 Mawrth. Edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchedig Jeff Williams (Aberhonddu) i arwain yn oedfaon 22 Mawrth. Yr aelodau fydd yn gyfrifol am yr oedfa fore Sul, 29 Mawrth. Am 18:00, byddwn yn ymuno yng Ngŵyl Bregethu'r Tabernacl. Bydd Ysgol Sul ar 1, 15 a 22 Mawrth.

**Gweithgarwch y mis**

Dros Dymor y Grawys, bydd cyfres newydd o dri chyfarfod dan arweiniad ein Gweinidog i'n harwain at y Groglith ac at y Pasg. Bydd y ddau gyfarfod cyntaf nos Fawrth, 10 a 24 Mawrth yn y festri (19:30). Bydd PIMS yn cyfarfod nos Lun, 9 a 23 Mawrth (19:00–20:30). Cynhelir cyfarfodydd y Gymdeithas nos Fawrth, 3 a 17 Mawrth am 19.30; ar 31 Mawrth, Mrs Gill Griffiths fydd y gwestai yn y cinio pen tymor. Bydd y gweithgarwch canlynol hefyd yn parhau: Babimini (fore Gwener, 6 a 20 Mawrth am 9:45 yn y festri) a Llynyddwch (fore Gwener, 27 Mawrth am 10:00 yng nghaffi Terra Nova, Parc y Rhath). Bydd cyfle i fwynhau Koinônia Pnawn ddydd Mercher, 11 Mawrth am 12:00 yn Caffe Fach, Rhiwbeina a Koinônia nos Sul, 15 Mawrth am 19:30. Bydd cyfle hefyd i gefnogi ein helusen ddewisiedig, cyfrannu nwyddau at elusennau, cynorthwyo â the i'r digartref a phrynu nwyddau Masnach Deg yn ystod y mis.

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Osian Rhodri Noakes, mab Catrin a David (Y Tyllgoed) a brawd bach i Gruffudd. Pob dymuniad da i'r teulu.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r Parch. Cynwil Williams a fu yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth yn ddiweddar. Mawr obeithiwn y gwelwn ef yn ôl yn ein plith yn fuan.

**Ymaelodi**

Croeso cynnes i Mrs. Buddug Walsh yn aelod yn Y Crwys. Nid yw'n ddieithr o gwbwl i'r Eglwys gan y bu yn aelod o'r blaen rai blynyddoedd yn ôl. Mae hi wedi ymgartrefu yn ardal Penylan.

**Prynhawn Da**

Cafwyd prynhawn addysgol yng nghwmni y Dr. Rowland Wynne yn annerch ar 'Evan James Williams – Ffisegydd yr Atom'. Arweiniwyd y defosiwn gan Miss Siân Evans.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd cyflwyniad o '*Yn ôl fy nhroed'* gyda Ffion Glyn yn dilyn taith Mari Jones. Cymerwyd ran hefyd gan y plant ac roedd y Parch Glyn Tudwal Jones yn urddasol iawn fel Thomas Charles! Diolch i bawb am y trefniadau.

**'West'**

Mwynhawyd yn fawr iawn y cynhyrchiad o *'West'*, o waith Owen Thomas gyda Gareth John Bale a Gwenllian Higginson yn cymryd rhan y ddau gymeriad yn y ddrama. Diolch am y cyfle o gael ei chyflwyno yn Theatr y Crwys.

**Gwener y Groglith**

Cynhelir Gwasanaeth Cymun y Groglith, o dan nawdd y Gymdeithas fore Gwener, Ebrill 10fed am 10yb. Arweinir y Gwasanaeth gan y Parch. Lona Roberts. Croeso cynnes.

**Oedfaon mis Ebrill**

Bydd y Gweinidog yn gwasanaethu yn yr oedfaon y Sul cyntaf o Ebrill ac hefyd ar yr ail Sul i ddathlu'r Pasg pryd y gweinyddir Sacrament y Cymun yn yr oedfa foreol. Ar Ebrill 19eg byddwn yn croesawu Mr Emlyn Davies atom, ac ar y 26ain, yn oedfa'r bore arweinir y gwasanaeth gan Dr Eirian Dafydd gyda'r gwasanaeth hwyrol o dan ofal Mr. William Tiplady.

## SALEM, TREGANNA

**Clwb y Bobl Ifanc**

Aeth Clwb y Bobl Ifanc i ymweld â'r Escape Rooms ddiwedd Chwefror.

**Gig yn Salem**

Daeth llond y lle i Salem ar nos Wener ddechrau Chwefror i glywed Elin Fflur, Mei Gwynedd a Siôn Llwyd, mewn noson i godi arian tuag at ein cynllun i'r di-gartref. Cafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni'r tri, diolch am eich cyfraniad tuag at lwyddiant ein cynllun, cafodd bawb noson wrth eu boddau!



*Siôn Llwyd, Elin Fflur a Mei Gwynedd*

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Mona a Bleddyn ar ôl i Bleddyn golli ei dad yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch.

**Adran yr Urdd**

Mae'r adran yn brysur yn paratoi tuag at eisteddfod yr Urdd - ac yn edrych ymlaen!

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT, YR EGLWYS NEWYDD

Mae eleni yn flwyddyn nodedig i Gatholigon Cymraeg yn Archesgobaeth Caerdydd. Hanner can mlynedd yn ôl cawsom ddathlu'r Offeren yn y Gymraeg yn wythnosol am y tro cyntaf - diolch i offeiriad ifanc a welodd yr angen i'r Eglwys wasanaethu Catholigion Cymraeg yn y Gymraeg.

Roedd Ail Gyngor y Fatican wedi pwysleisio'r angen i bobl glywed yr Offeren yn eu mamiaith, ac erbyn dechrau'r saithdegau roedd litwrgi Offeren y Sul wedi'i gyfieithu o'r Lladin i'r Gymraeg. Felly cynigiodd y Tad Edwin Regan ddysgu digon o Gymraeg i ddweud yr Offeren bob prynhawn Sul yn Eglwys Cadog Sant, Y Bontfaen.

Deuai teuluoedd yn gyson o Gaerdydd a'r Fro a thu hwnt. Roedd Ysgol Sul ar gael i'r plant a daeth y Tad Regan yn rhugl wrth i'r amser fynd hebio. Pan aeth e'n offeiriad y plwyf i Eglwys Santes Fair ym Mhenybont fe symudodd y gynulleidfa ato!

Er mawr ofid i'r ffyddloniaid, fe'i dyrchafwyd yn Esgob Wrecsam – ond o leiaf roedd hynny'n golygu y gallai gynnig arweiniad i Gymry Catholig drwy Gymru gyfan. Dyna pryd daeth yr annwyl Dad Ieuan Wyn Jones i'n cynnal ond roedd rhaid symud eto – y tro hwn i Eglwys y Galon Sanctaidd yn Llechwydd. Mae llawer blwyddyn ers hynny, ond diolch i ymroddiad nifer o offeiriaid, cawsom glywed yr Offeren yn wythnosol yng Nghaerdydd tan tua dwy flynedd yn ôl.

Erbyn hyn, ry'n ni wedi ymgartrefu yn Eglwys Teilo Sant yn yr Eglwys Newydd, lle mae'r Offeren yn Gymraeg ar Sul olaf pob mis am 4.30pm. Mae ein dyled yn fawr i'r Tad Peter Davies am roi cychwyn newydd i'n haddoliad yn y Gymraeg yn ardal Caerdydd. Gobeithio y bydd ein hoffeiriaid ifainc yn ymddiddori yn y Gymraeg fel bod mwy o gyfleoedd yn codi i Gatholigion glywed yr iaith yn addoliad yr Eglwys.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## TABERNACL, YR AIS

**Cydymdeimlo**

Yn ystod y misoedd diweddaraf, clywsom am farwolaeth Rhiannon, chwaer Robin Gwyndaf o Lansanan, a Hywel, brawd Eirlys Pritchard Jones a Carys Whelan, o Don Pentre, Rhondda Fawr. Roedd y ddau yn frwdfrydig dros yr eglwysi hynny lle roeddent yn aelodau. Gwerthfawrogwyd cyfraniad Côr y Tabernacl yn angladd Hywel.

**Gair o werthfawrogiad oddi wrth Beca Evans**

Mae Beca Evans am ddiolch i bawb a gefnogodd ei bore coffi i godi arian ar gyfer ei thaith i Batagonia gyda'i hysgol. Disgwylir i'r disgyblion godi £2,500 yr un ac roedd derbyn £355 yn swm sylweddol tuag at gyrraedd y nôd. Roedd yn fore hwyliog, gyda nifer dda o gyfeillion y Tabernacl yn bresennol.

**Oedfaon yr aelodau**

Cynhaliwyd dwy oedfa gan yr aelodau ddiwedd mis Ionawr, y naill gan yr ifanc sy'n mynychu Dosbarth Beiblaidd yng nghartref Marc a Rhian Williams, a'r llall gan aelodau Dwyrain Caerdydd. Cyflwynwyd oedfa'r ifanc yn gyntaf yn ystod eu taith i Eglwys Canol Llundain, a hwy luniodd y gwasanaeth ar sail eu myfyrdod am Noa. Cynhaliwyd oedfa dan ofal aelodau ardal y Rhath a'r Mynydd Bychan, gan gyflwyno deunydd yn ymwneud â Dydd yr Holocaust.

**Cymdeithas Pnawn Iau**

Roedd Chwefror yn fis prysur i'r Gymdeithas. Sian Rhiannon oedd y cyntaf i gyfrannu y mis hwn a'i thema oedd 'Athrawon a'r Mudiad Hawliau Merched'; yna cawsom gyflwyniad Llinos Metcalf ar y testun '-36°C i +36°C'. 'Fy Nhrysor i' oedd pwnc trafod Sian Dowling, Sian Wyn Thomas a Shirley Ann James.

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Pleser mawr oedd cael gwrando ar yr Athro Bill Jones ar y pwnc 'Y Cymry yn UDA yn y G19'.

Ail ddigwyddiad y mis oedd ymweliad â chartref Sian Dowling i fwynhau gwledd Indiaidd. Codwyd swm anrhydeddus i gronfa Lesotho yn ystod y noson.

## BETHEL, PENARTH

Cydymdeimlwn yn ddwys gydag Eifion a'i wraig yn eu profedigaeth ddiweddar.

Anfonwyd £1500 at yr elusen Prostad Cymru a nodwyd gennym mewn elusen arbennig yn 2019.

Da iawn clywed am gamau breision yng ngyrfa gerddorol Hana Evans. Yn ddiweddar bu'n perfformio gydag Al Lewis mewn gig ar Ddydd Miwsig Cymru. Bu'n canu ei chaneuon gwreiddiol ac yn cyflwyno'r gân *Geiriau* gyda disgyblion Ysgol Gwaelod-y-Garth. Ar hyn o bryd mae Hana'n rhan o brosiect *Gorwelion*, sy'n rhoi cyfleoedd iddi berfformio ar draws Cymru a Lloegr. Bu un o'i chaneuon, 'Daydreaming', yn drac yr wythnos ar Radio 1. Bydd ei sengl newydd yn cael ei ryddhau ym mis Ebrill.

Ar Sul cyntaf mis bach cawsom y

pleser o ddilyn arweiniad Karen Owen ar ei hymweliad cyntaf â Bethel. Seiliodd ei sylwadau ar yr hanes yn Llyfr Cyntaf Brenhinoedd Pennod 12. Yn oedfa'r hwyr buom yn ystyried natur Ffydd, gan bwysleisio ymddiried yn Nuw ac ymddiried yn Ei addewidion.

Ar y Sul canlynol bu'n gweinidog yn tywys ein meddyliau at rai o nodwedd Duw y Rhoddwr

Ar Chwefror 16 bu un o'n haelodau, Emma, yn sôn am waith yr elusen Achub y Plant ac am ei hymweliad â'r India. Yn oedfa'r hwyr bu'n gweinidog yn arwain ein meddyliau at y defnydd o 'gusan' yn y Beibl – gweler Salm 85 (emyn 205), Mathew 26, Marc 14, Luc 22, Luc 15.

Yn oedfa olaf Chwefror bu'n gweinidog yn ein paratoi ar gyfer Tymor y Grawys trwy sylwi ar hanes temtiad Iesu yn Efengyl Luc, Pennod 4, gan nodi bod Iesu wedi gwrthsefyll temtasiynau a'i fod wrth law i'n cynorthwyo ni pan gawn brofiadau tebyg.

Diolchiadau lu i Emma a Sian Meinir a fu wrthi Nos Lun Chwefror 24ain yn paratoi pancos i'r rhai a ddaeth ynghyd i fwynhau a hel arian at Achub y Plant.

## AGOR Y LLYFR

Ar fore Mercher, 12 Chwefror, aeth saith ohonom i Ysgol y Wern, Llanisien, am y tro cyntaf. Y cyflwyniad oedd hanes yr Iesu yn ddeuddeg oed ar goll yn y Deml. Yr actorion oedd Ifan a Catrin, Gwilym ac Eirian, Adam a Lona; ac Alun oedd y storiwr. Llenwyd y neuadd i'r ymylon a chyflwynwyd yr hanes ddwy waith yng nghwmni dros 500 o ddisgyblion a'u hathrawon.

Yna ar fore Llun hynod wlyb wedi wythnos hanner tymor, fe ddychwelon ni i Ysgol Glan Morfa am y pumed tro. Hanes Ioan Fedyddiwr yn bedyddio Iesu Grist ac eraill oedd yr arlwy gydag wyth yn rhan o'r cyflwyniad - Tony a Nans Couch am y tro cyntaf - croeso iddynt.

Byddwn yn dychwelyd i Lan Morfa ar fore Llun, 16 Mawrth, ac yn cynnal ymarfer yn festri'r Crwys ar fore Iau, 12 Mawrth, am un ar ddeg o'r gloch. Mae angen ychwaneg o actorion arnom, a bydd croeso mawr i actorion gyda llinellau a rhai tawel!



# Pobol y Rhigwm

Y dasg y tro diwetha i'r rhigymwyr (tasg 29) oedd pennill addas i'w ddefnyddio fel neges peiriant ateb. Daeth cannoedd o gynigion i law, a dyma ddetholiad o'r goreuon.

Cafwyd dau gynnig gan 'Ni'n Dou', a fyddai'n gweddu'n berffaith i beiriant ateb. Mae cic mesur y triban yn y ei lle, a'r cyfan yn hwyliog iawn. Dyma nhw:

Dim ond chi a fi sy 'ma.
Mae'n swnio'n ddigon smala,
Ond rhowch chi'ch neges chi i fi
A fe gân nhw hi yfory.

Mae'n flin 'da fi eich siomi
Ond gwedwch chi eich stori.
Fe ga' i'r neges maes o law,
A daw eich ateb fory.

Dyma gynnig gan 'Lowri Fach'; hoffais y stori fer gynnil yn gefn i'r limrig hwn... cynnil iawn!

Helo!
A wnewch chi ffonio nôl fory?
Mae Mami a Dadi'n y gwely.
Nid ydynt yn cysgu,
Ond maent yn reit fishi –
Gofynnais am frawd bach yn gwmni.

Daeth tri chynnig gan 'Byth yn y tŷ' sy'n benillion twt, a'r mydr yn gywir.

Fi'r peiriant bach sydd yma.
Fy ngwaith yw negeseua.
Siaradwch chi ac fe wnaf i
Ei basio mla'n i Hannah.

Mae "E" 'di cilo heno 'to!
Siaradwch miwn i'r meic.
Pan ddaw "E" nôl fe fydda i'n fud –
Wi wedi mynd ar streic!!

Diolch i chi am ffonio.
W i ddim yn lico conan
Ond ma'r diawl 'di cilo 'to
A finne wrth fy hunan.
Gadewch y neges yma,
'Ych chithe'n eitha reit,
Ond pan bwysith "E" y bwtwn,
Weda inne ddim – o sbeit!

Y gorau i mi, neu'r un sy wedi fy ngoglais fwya, yw eiddo 'Byth yn y tŷ', yn enwedig y pennill cynta – mae'n ddiniwed, eto'n ddoniol meddwl mai'r peiriant ei hun sy'n siarad. Llongyfarchiadau iddo neu iddi.

**Enillydd tasg rhif 28 yw**
**Hannah Roberts, Llandaf**

Y dasg y tro nesa yw pennill, triban neu limrig yn ymwneud â **BRECWAST**.

Anfonwch eich cynigion, yn ôl yr arfer, at db.james@ntlworld.com erbyn y dyddiad cau, sef 18 Mawrth.

***Emyr Davies***

# Ysgol Glantaf

**Prosiect Phoenix**

Mae Prosiect Phoenix yn bartneriaeth rhwng prifysgolion Caerdydd a Namibia. Bwriad y prosiect yw lleihau tlodi, gwella gofal iechyd a'r amgylchedd mewn ffordd gynaliadwy yn Namibia. Mae'r berthynas gyda phrosiect y brifysgol yn gyfle gwych i ni fel ysgol ddatblygu dealltwriaeth o addysg Datblygiadau Cynaliadwy ac yn cyfoethogi ein dealluswrydd o beth yw bod yn ddinesydd byd-eang. Mae'r prosiect yn darparu cyfleoedd i ni greu cysylltiadau gyda dysgwyr mewn ysgolion yn Namibia. Yng nghwmni'r Athro Judith Hall OBE, sy'n arwain y Prosiect, Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru a'r Athro Colon Riordan, Is-ganghellor a Llywydd Prifysgol Caerdydd, fe blannwyd nifer o goed ar safle'r ysgol. Braf bydd gweld gwaith caled ein disgyblion yn blodeuo dros y blynyddoedd i ddod. Diolch Dr Henderson am drefnu cyfle gwych a chofiadwy i'n disgyblion. Yn dilyn y digwyddiad fe grëwyd lluniau arbennig o'n disgyblion. Llwydda'r darluniau, gan yr arlunydd Chris Glynn, i ddynodi pwysigrwydd y dydd.



Declan

**Sgwash**

Llongyfarchiadau i Declan, (bl. 7), am ddod yn drydydd yn Nhwrnament Cenedlaethol Sgwash Cymru Dan 13.

**Glan-llyn**

Yn ddiweddar aeth criw o'r chweched ar gwrs i Lan-Llyn fel rhan o'u cwrs Daearyddiaeth, a chael cyfle i ymweld ag ardaloedd hyfryd megis Cwm Idwal, Harlech a Betws y Coed. Roedd yn gyfle i'n disgyblion gasglu data ar gyfer eu harholiadau. Edrychwyd ar ddylanwad mudwyr a thwristiaeth anturus, ystyriwyd hefyd sut roedd prosesau rhewlifol wedi cerfio tirffurfiau Gogledd Cymru. Yn ogystal casglwyd data ar nodweddion twyni tywod. Wythnos brysur, ond yn un fuddiol iawn!

**Nofio'r Urdd**

Gwelwyd sawl llwyddiant i'r ysgol unwaith eto eleni yng Ngala nofio'r Urdd. Dyma ganlyniadau'r ysgol:
Medalau aur:
Sophie B – Broga Bl 9-10
Rosie D – Cefn Bl 11-13
Bechgyn Bl 9-10 - Cyfnewid amrywiol
Bechgyn Bl 9-10 – Cyfnewid rhydd bechgyn
Medalau arian:
Evan V – Broga Bl 7-8
Gruff D - Pilipala Bl 9-10
Carys D - Rhydd Bl 9-10
Bechgyn Bl 7-8- Cyfnewid amrywiol
Bechgyn Bl 7-8 – Cyfnewid rhydd
Merched Bl 9-10- Cyfnewid amrywiol
Merched Bl 9-10- Cyfnewid rhydd
Merched Bl 11-13- Cyfnewid rhydd
Medal efydd
Merched Bl 11-13 – Cyfnewid amrywiol
Rydym yn falch iawn o ymdrechion ac ymroddiad ein disgyblion.

**Dathliadau Santes Dwynwen**

Mae diwrnod Santes Dwynwen yn gyfle gwych i ddangos ein gwerthfawrogiad neu gariad at y rhai sy'n bwysig yn ein bywydau. Penderfynodd y Pwyllgor BYG eleni i ddangos gwerthfawrogiad a charedigrwydd drwy drefnu casgliad i fanciau bwyd Caerdydd. Fe drawsnewidiwyd yr ysgol yn fôr coch wrth i ddisgyblion wisgo eitemau coch i'r ysgol. Trefnwyd sawl stondin yn ystod amser egwyl. Roedd cyfraniadau ein holl ddisgyblion yn galonogol iawn ac yn amlygu eu caredigrwydd tuag at eraill. Diolch i'r pwyllgor BYG am drefnu ac i Miss Walkling am gydlynu.

**Ynys y Cariadon**


Connagh

Braf oedd gweld cyn-ddisgybl yn cynrychioli Cymru yn y gyfres boblogiadd *Love Island*. Roedd Connagh yn ŵr bonheddig ar hyd ei gyfnod yn y 'fila'. Ymysg yr helyntion, braf oedd clywed Connagh yn mynd ati i geisio dysgu ambell derm Cymraeg i'w gyd-ynyswyr.

# Ysgol Gwaun y Nant

Yn ddiweddar bu disgyblion Blwyddyn 4 a'u hathrawes, Miss Lynch ar drip dau ddiwrnod i Ganolfan yr Urdd yn Mae Caerdydd.

Bu'r plant yn edrych ymlaen yn eiddgar am y trip dros sawl mis ac er mwyn lleihau'r gost i rieni fe osodwyd sialens i'r plant i fynd ati i gynnal gwahanol weithgareddau er mwyn codi'r arian.

Bu'r plant yn frwdfrydig wrth gynllunio a phenderfynwyd cynnal noson gwis i'r teulu yn ogystal ag agor stondin siocled poeth a bisgedi ar ddiwedd y dydd. Profodd hyn yn boblogaidd iawn! Hefyd fe noddwyd y plant i gerdded milltir a hanner yn ddyddiol dros gyfnod o wythnos. Buont yn cerdded ymhob tywydd a chymaint oedd llwyddiant y gweithgareddau fe gasglwyd dros £2000.

Yn ystod y deuddydd yng Nghanolfan yr Urdd cymerodd y plant ran mewn sawl gweithgaredd gan gynnwys trip i Techniquest, bowlio deg, taith fws awyr agored o gwmpas y ddinas, taith o gwmpas Canolfan y Mileniwm, taith gyffrous ar gwch cyflym o amgylch Y Bae, trip i'r amgueddfa ac wrth gwrs – disco!!

Bu'r holl wethgareddau yn brofiad gwerth chweil i'r disgyblion ac meddai un ohonynt -"Dyma'r peth gorau 'dwi wedi ei wneud yn fy mywyd!!!" Diolch i holl swyddogion yr Urdd am drefnu ac am y croeso!!



# Ysgol Bro Morgannwg

Bu'n fis prysur arall yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, gyda'r gwaith adeiladu ar gyfer yr adeilad newydd yn parhau.

**Eisteddfod Ysgol**

Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol lwyddiannus arall eleni, yn amserol i ddathlu diwylliant Cymraeg yr ysgol. Cafwyd cystadlu brwd yn ystod y dydd rhwng y llysoedd. Llys Mihangel ddaeth i'r brig eleni. Enillydd Cadair yr Ysgol oedd Anni Davies o flwyddyn 13. Ysgrifennodd ryddiaith ar y testun '*Mwgwd*' gan bortreadu'r cymeriad o dri gogwydd gwahanol. Gobaith Anni yw mynd i'r Brifysgol yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf i astudio Cymraeg a Cherdd.



*Cadeirio Anni*

**Prifysgolion gorau Prydain**

Llwyddodd tri disgybl o'r Chweched Dosbarth i ennill eu lle yn rhai o brifysgolion gorau Prydain. Mae Elly Greening a Huw Jones wedi'u derbyn i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen, a Twm Aled wedi'i dderbyn i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt. Bwriad Elly yw astudio Bioleg yng Ngholeg Magdalen gyda Huw Jones a'i fryd ar astudio Daearyddiaeth yng Ngholeg Eglwys Crist. Bydd Twm Aled yn astudio Saesneg yng Ngholeg Gonville a Caius. Dyma lwyddiant ysgubol i'r disgyblion ac i'r ysgol, gan brofi unwaith eto gryfder addysg ddwyieithog.

**Taith Berlin**

Dros wyliau hanner tymor, aeth 65 o ddisgyblion yr ysgol ar daith Hanes i Berlin. Roedd yn daith addysgiadol a diddorol, gan ddod â'r dysgu yn fyw i'r disgyblion!

**Ennill cap dros Gymru**

Yn ystod twrnament y Chwe Gwlad, llwyddodd Mason Grady, blwyddyn 13, i ennill cap dros ei wlad yn nhîm dan ugain Cymru. Er nad yw Mason ond yn ddwy ar bymtheg, fe'i dewiswyd i chwarae yn nhîm Cymru yn erbyn y Ffrancwyr yn nhywydd garw Bae Colwyn. Llwyddodd y tîm i drechu Ffrainc o 14-11. Llongyfarchiadau mawr i ti Mason ac edrychwn ymlaen at ddilyn dy lwyddiant yn y dyfodol!

---




## Cymrodorion Caerdydd

Sefydlwyd 1885

## Defnyddio'r Iaith: Her Polisi Cymraeg 2050

Cyflwyniad gan

**Aled Roberts**

Comisiynydd y Gymraeg

**Nos Wener 13 Mawrth**

7.30 y.h.

Yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg
Harriet St., CF24 4BX

*Croeso cynnes i bawb*
*Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig*
*Mynediad i aelodau yn rhad - £3 i eraill*

# Ysgol Sant Baruc

**Hybu Cymreictod**
Llongyfarchiadau enfawr i'r ysgol am ennill gwobr Arian y Siarter Iaith yn ddiweddar. Bu'r ysgol yn brysur wrth gynnal nifer o weithgareddau er mwyn hybu Cymreictod ac yn cyd-weithio gydag ysgolion lleol sef Ysgol High Street ac Ysgol Ynys y Barri.

**Eisteddfod**
Bu cystadlu brwd yn Eisteddfod yr Ysgol ar y 14eg o Chwefror gyda nifer o ddisgyblion yn cynrychioli llysoedd Buddug, Glyndŵr a Llywelyn.

Gwelwyd disgyblion yn cystadlu yng nghystadlaethau canu, llefaru, dawnsio disgo, offerynnol, darlunio, llawysgrifen a chôr llys.

Llongyfarchiadau mawr i Lucas (Sion Corn) o lys Glyndŵr am ennill y gadair eleni. Yn ail roedd Evie a Teagan ac yn drydydd roedd Elin a Daniel. Thema'r gerdd eleni oedd "Hunllef" ac rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Marged Cross am feirniadu'r holl gystadleuaethau.

Llys Glyndŵr oedd yn fuddugol ar ddiwedd y dydd – Llongyfarchiadau enfawr i bawb.

**Cerddor y Flwyddyn**
Llongyfarchiadau i Seren o lys Glyndŵr am ennill tlws y Cerddor eleni. Mae Seren yn haeddu'r tlws am ei chyfraniad yn canu a pherfformio. Mae Seren yn cystadlu mewn eisteddfodau yn flynyddol ac eleni bu'n rhan o sioe *Nativity!* dros gyfnod y Nadolig, yn perfformio ar lwyfan Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Perfformiodd hefyd ran "Dorothy" yng nghynhyrchiad yr ysgol o *Dewin Os* ym mis Rhagfyr.

**Gymnasteg**
Da iawn i Lottie a Nia am eu perfformiad gwych yng nghystadleuaeth *Tumble & Vault* yng Ngherddi Soffia. Bu'r merched yn cynrychioli'r ysgol ac ar y diwrnod daeth Lottie yn gyntaf a Nia yn ail.

# Ysgol Sant Curig

Mae Ysgol Sant Curig yn gymuned hynod ofalgar o safonau lles, ymddygiad ac agweddau disgyblion tuag at ddysgu. Mae ein staff gweithgar yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog a symbylus sy'n sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae ethos Gymreig gref yn ein Ysgol. Rhown gyfle i bawb i ddefnyddio eu dychymyg ac i gymryd rhan mewn perfformiadau amrywiol, sy'n arwain at lwyddiant mewn eisteddfodau a pherfformiadau ar lwyfannau cyhoeddus.

'Tyfwn ar ein Taith' yw arwyddair yr Ysgol, sydd yn annog disgyblion i ffynnu wrth iddynt ddilyn y daith drwy'r ysgol er mwyn datblygu'n ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. Gyda dyfodiad y Cwricwlwm Newydd i Gymru mae'n amser cyffrous o newid i bob ysgol yng Nghymru. Rydym yn barod i ymgymryd â'r heriau ac wedi datblygu taith ddysgu unigryw i'r disgyblion – 'Taith y Tymor'. Rhydd hyn brofiadau cyfoethog i'n plant fel eu bod yn teimlo perchnogaeth ar eu dysgu. Mae ein rhieni hefyd yn chwarae rôl allweddol yn hyn.

Dywed y Pennaeth Mr Rhodri Jones, "Mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi'r rhieni a'u hannog i fod yn rhan weithgar o'r gymuned ysgol lwyddiannus. Mae cyfathrebu cyson ac effeithiol gyda'r rhieni yn adeiladu perthynas gref fel y gallwn weithio gyda'n gilydd er lles y disgyblion."

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau hynod weithgar sydd yn cefnogi'r ysgol trwy gynnal gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal â chodi arian i brynu adnoddau angenrheidiol. Maent hefyd yn chwarae rôl hollbwysig wrth ddatblygu'n gardd wyllt – amgylchedd ddysgu anhygoel i'n disgyblion.

Ychwanega Mr Jones "Ymfalchiwn yn y dysgu a'r addysgu ardderchog sydd yn digwydd yn Sant Curig. Gyda chefnogaeth holl randdeiliaid yr ysgol (#Teulu Curig) teimlwn yn gyffrous iawn wrth wynebu'r heriau sydd o'n blaenau ac wrth gyd-weithio er mwyn cyrraedd y brig."



# Ysgol Gwaelod-Y-Garth

**Dydd Miwsig Cymru**
Cafodd plant Bl. 6 wahoddiad i berffomio gydag Al Lewis a Hana 2k yng nghanolfan Dewi Sant Caerdydd fel rhan o ddathliadau Dydd Miwsig Cymru. Yn ystod y diwrnod bu'r plant yn perffomio "Geiriau" gyda Hana 2k a "Lle hoffwn fod" gydag Al Lewis. Profiad arbennig! (*gweler llun ar y clawr)*

**Codi arian**
Rydym fel ysgol yn hynod o falch o Eva Hobbs a'i ffrindiau wnaeth drefnu bore coffi er mwyn codi arian ar gyfer dioddefwyr y llifogydd yn ein hardal leol. Llwyddwyd i godi'r swm anhygoel o £1,748.

**Ymweliad â'r Senedd**
Yn ddiweddar bu ein Cyngor Ysgol ar ymweliad â'r Senedd. Caswsant y cyfle i fynd am daith o gwmpas y Senedd, cyfarfod gyda'r aelodau a hyd yn oed cael dadl yn y siambr Hywel! Roedd yn fore arbennig; a diolch yn fawr i Mrs Wade a Miss Evans am drefnu.

## ADDYSG GYMRAEG – Y TWF WEDI AIL-DDECHRAU

Yn 2016 dechreuodd 747 yn y sector Gynradd Gymraeg, y nifer uchaf erioed yn y ddinas. Yn y tair blynedd ganlynol disgynnodd y niferoedd, peth na ddigwyddodd ers 1949. Bu twf cyson o 6% ers 2000.

Y llynedd dewisodd 714 Gymraeg fel prif opsiwn. Eleni, cododd y rhif i 779 - canran ychydig yn brin o 20% o'r plant i gyd.

Mae'r twf rhyfeddaf wedi digwydd yn ysgol newydd Hamadryad gyda 68 cais, ac felly yn orlawn. Mae Ysgol Treganna yn orlawn gyda 96 cais. Yn ffodus bydd modd cynnig lle i'r 14 dros ben yn Ysgol Pwll Coch sydd wedi derbyn 45 cais am ei 60 lle. Mae Melin Gruffydd, Y Wern, Y Berllan Deg a Mynydd Bychan i gyd yn orlawn, yr olaf gyda 16 yn methu cael lle a dim lle mewn ysgol gyfagos. Cafodd y Sir dros £3M i helaethu Mynydd Bychan ond mae'n dal i ymgynghori ar sut i wario'r arian er mwyn datrys y galw am leoedd ychwanegol.

Ysgolion sy'n gyffyrddus llawn yw Y Creigiau, Gwaelod-y-garth, Nant Caerau, Bro Eirwg a Phenypil. Dyw Coed-y-gof a Phenygroes ddim yn llawn.

Os bydd y 779 sy wedi ceisio, yn llwyddo, a mwy yn cyrraedd gyda cheisiadau hwyr ni fydd cymaint o leoedd gwag o'r 840 lle sydd ar gael yn y sector Gynradd Gymraeg a bydd yn haws i bwyso ar y sir i wario'r arian sydd ar gael i helaethu Nant Caerau, Penypil a Mynydd Bychan i godi'r ffrydiau Cymraeg o'r 28 presennol i 31 ac i 32 pan fydd ysgol newydd Plasdwr yn agor yn 2021. Mae'r hysbysiad statudol i agor Plasdwr newydd ei gyhoeddi.

Yn y sector Uwchradd mae 608 eleni wedi derbyn lle. Bydd 960 yn symud lan o'r sector Cynradd gyda 32 ffrwd, sy'n dangos yr angen i helaethu'r sector Uwchradd lle mae 21 ffrwd.

*Michael Jones*

## FFARWELIO Â'R TABERNACL, Y BARRI

Mae'r capel eiconig ar Sgwâr y Brenin, y Barri ar werth. Mae'r gynulleidfa wedi heneiddio a lleihau ac yn ei chael hi'n anodd i gynnal yr adeilad; ac mae'r grisiau yn ei gwneud hi'n anodd hefyd. Tabernacl yw'r capel Cymraeg olaf yn y Barri.

Cynhaliwyd y gwasanaeth olaf ar Sul olaf 2019, ac o fis Ionawr 2020 ymlaen mae'r eglwys yn cwrdd yng nghanolfan gymunedol Sant Ffransis ym Mhorth y Castell bob bore Sul am 11.

Edrychwn yn ôl gyda balchder ar gyfraniad y capel i fywyd y dref. Ym 1976 darlledwyd Addoliad Bore ar ITV yn fyw ledled y DU o Tabernacl ac mae wedi ymddangos ar *Caniadaeth y Cysegr* (BBC) a *Dechrau Canu* (S4C). Dros y blynyddoedd cynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau cerddorol, ac yn 2011-2012, bu'n gartref i Gôr yr Eisteddfod Genedlaethol.

Sefydlwyd yr eglwys gyntaf mewn sied dun ar 20 Ebrill 1890 gan 40 o bobl a oedd gynt yn aelodau ym Methel, Penarth. Daeth eglwysi Tabernacl a Bethel Penarth at ei gilydd eto o dan weinidogaeth y Parchedig Kevin Davies.

Codwyd yr adeilad presennol ym 1894 (am £285!), a chasglwyd £85 ar ddiwrnod sefydlu'r eglwys. Ychwanegwyd yr oriel ym 1914, ac ym 1924 gosodwyd yr organ bîb. Yn 1899 daeth y Parchedig Ben Evans yn weinidog a thyfodd yr aelodaeth i dros 400. Chwaraeodd ran fawr ym mywyd dinesig y Barri. Sefydlodd ei fab, Dan Evans, ei siop enwog a chwarae rhan bwysig ym mywyd y Barri. Daeth ŵyr Ben Evans, Gwynfor Evans, yn aelod seneddol cyntaf Plaid Cymru, ac mae ei or-wyrion yn aelodau o'r eglwys heddiw.

Nid chafwyd cartref parhaol eto; ond mae'r aelodau'n edrych ymlaen at ddatblygu fel eglwys yn eu cartref dros dro yn Sant Ffransis, a oedd yn gartref i ysgol gynradd Gymraeg yn y Barri am nifer o flynyddoedd.

*Euryn Ogwen Williams*

## Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Ar ddiwedd 2019 cynhaliwyd noson arbennig yn Neuadd Bentref Dinas Powys. Noson elusennol flynyddol y Gymdeithas Gymraeg oedd hon a *Prostate Cymru* oedd yr elusen ddewisedig eleni. Roedd y neuadd o dan ei sang a'r awyrgylch yn gynnes a chroesawgar a'r glonc o ford i ford yn felys a byrlymus. Cawsom gwmni Côr Meibion Taf i'n difyrru a phlesiwyd y gynulleidfa yn fawr iawn gan y canu swynol a grymus.

Yn sgil y noson, trosglwyddwyd siec o £2,725 i ddwylo Brynmor Williams, llysgennad y Gymdeithas gan rai o aelodau'r pwyllgor. Diolchwn i bawb a fu mor gefnogol a hael i'r noson.



# Bwytai Merch y Ddinas

*"mae dwyster blasau Dwyreiniol yn ein tywys i fannau anfeidrol"*

**Lowri Haf Cooke**



**Deffro'r Gwanwyn!**

Ar gyfer mis Mawrth, ysbrydolwyd y golofn hon gan atebion danteithiol Tamsin Ramasut yn y golofn Cerdyn Post! Treuliais fisoedd y gaeaf, fel nifer ohonom, yn gwledda ar fwydydd cysur. Nid *'junk-food'* mo hynny, ond blasau dwys i gynhesu, a chynhwysion Cymreig llawn daioni – a drygioni pur! Caserôls eidion a chig moch, llysiau'r pridd a gwin coch tra'n swatio rhag stormydd Ciara a Dennis.

Wedi goroesi'r gaeaf, a chroesawu arwyddion gwanwynaidd, mae'n amser meddwl am flasau ysgafnach. Peidiwch â mynd i banics, dwi ddim yn sôn am annog deiets; mae hen ddigon o amser - pum mis i fod yn fanwl gywir – tan ddatgeliad mawr eich 'dream-eisteddfod-bod' ar sgwâr Tregaron. Na, dwi'n sôn am bach o sbeis, a gwefr wahanol i godi chwant am bach o gynnwrf pur annisgwyl yn y gegin. Ewch i hela am garlleg wyllt i gydbwyso melyster cig oen rhost... neu arbrofwch â blas chwerwfelys oren a rhiwbob. Mae chwarae â blasau 'newydd' y tymor fel profi chwa o awyr iach, neu'r balchder pur o daclo'r tŷ gyda *feather duster*!



Mae'r un peth yn wir am ail-asesu'ch dewis o fwytai, neu, gwell byth, ail-ddarganfod hen ffefrynnau. Byddwch yn onest; pryd oedd y tro diwethaf i chi archebu unrhywbeth ond stêc ar y fwydlen? Dwi 'run mor euog â chi – ges i stecen ddiweddar yn The Discovery ger Llyn y Rhath – ond mae na wefr arbennig i gael wrth herio'r daflod a deffro'r gwanwyn!

Pe bawn i'n byw yn agosach, dewiswn loddesta sawl gwaith yr wythnos ym mwyty cŵl Bangkok Cafe, Treganna. Ydy, mae'r lliwiau llachar yn denu, a bwrlwm yr ysbryd ddinesig – mae'n le perffaith ar gyfer dêt, neu gwrdd â ffrindiau. Ond y blasau, gyfeillion, y blasau anhygoel sy'n fy nenu i 'nol bob tro. Mae nhw'n taro fy mhen fel noson tân gwyllt, neu enfys dros gastell Caerdydd.

Mae'n wir i ddweud fod blas sawrus 'umami' yn bresennol ym mwydydd cynhenid Cymru – cig, caws, wyau, er enghraifft i enwi ond tri. Ond mae dwyster blasau Dwyreiniol yn ein tywys i fannau anfeidrol, gan esgor ar synnwyr o gydbwysedd, a harmoni pur.

Ysgrifennais eisioes farwnad i gawl *Dom Yam* Thai House, pan gaewyd y bwyty hwnnw y llynedd ar Gilgant Guilford. Cynigodd y bwyty chwaethus hafan, a saif ei adfail fel Stafell Gynddylan – cyfranodd Noi ac Arlene Ramasut cymaint at ddiwylliant Caerdydd ers sefylu Thai House yn 1985. Diolch i'r drefn, agorodd eu merch Tamsin Bangkok Cafe yn 2011, ac mae'r cawl *Dom Yam Gung* yno yn lleddfu pob poen, a llenwi'r galon.

Ond ble roedd bwyty Thai House yn guddfan glasurol tu ôl i'r muriau glas brenhinol, mae Bangkok Cafe yn le llawn asbri a hwyl neon-neon. Mae'r bwyd yn chwareus, yn cynnig sawl syrpreis, a phleserau di-ri i westeion. Un enghraifft yn unig yw cyflwyniad yr arlwy ar blatiau a bowliau amryliw, gan sbarduno atgofion plentynod o Topsy a Tim ar eu hantur fawr gyntaf ar awyren! Mae cynnwys y platiau wedi'u haddurno â pherlysiau, fel tsili, lemwnwellt a choriander; blasau sitrws-sawrus yn canu 'Titrwm Tatrwm' ar flaen fy nhafod.


A'r cynnwys ei hun? Wel ar ymweliad ddechrau'r mis, fe rannais blatiad bach o *See Kron Moo Tord* - asennau porc sbeislyd a gludiog. Aeth Esyllt, fy ffrind, sy'n caru nŵdls *Pad Thai*, am y *Goo Tord* ar y fwydlen arbennig; brest cyw iâr crisp gyda dewis o sawsiau sawrus, a chawl madarch a llysiau wedi'u tro-ffrio. Fe rannon ni *Som Dam* – sef y salad crenshlyd eiconig, sy'n ffrwydriad o chilli, papaya a chorgimychiaid. Yn brif gwrs i mi? *Gang Dang Bed*. Fy hoff saig Bangkok Cafe ers ei flasu ar faes Tafwyl Castell Caerdydd yn 2013. Cyri coch hwyaden, sy'n cyfuno melyster a sbeis - cystal bob tamed â hoff uwd Wil Cwac Cwac! Rhannwyd potel o win – Sauvignon Blanc o Chile i gydbwyso'r blasau – a thalu llai na £30 yr un am wledd go iawn ar nos Wener.


Rwy'n eithriadol o falch i mi gynnwys Bangkok Cafe yn fy llyfr diweddar *Bwytai Cymru*. Bydd pobol wastad yn holi pa le yw fy ffefryn, a rhaid cyfadde, mae Bangkok Cafe gyda'r gorau. Esgusodwch fi, ond dwi heb fwyta trwy'r dydd – ac mae'r atgofion byw yn denu dŵr i'r dannedd. Dwi angen archebu bwrdd arall yno, ar unwaith a dweud y gwir. Da chi, gwnewch 'run fath i'ch deffro o drwmgwsg blasau'r gaeaf – dwi'n gaddo, wnewch chi *ddim* difaru.

**Bangkok Cafe, 207 Cowbridge Road East, Treganna CF11 9AJ; 02920 340955**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un**

**Rhif: 200**



## Ar Draws

1. 'Enw hyfryd a rhinweddol
----- ----- ----- natur dyn' (WW) (3,2,6)
8. Perthynas o'r dwyrain (3)
9. 'Mi ŵyraf weithau ar y dde
Ac ar ----- ----- -----' (WW) (2,4,3)
10. Anrheg ddoeth er ei gario yn hwn (5)
12. Agnes, Llwyd, Glesni ar yn ail yn cael ffrwyth (7)
14. 'Roedd Dei yno yn loetran (2,4)
16. Lle i weld ffilm yn ein maes ni efallai (6)
18. Chwilio i mewn i eiddo tri truenus (7)
19. Cywasgu'r diddiflanedig yn fodlon (5)
20. 'Byw i weld yr -----
Fu farw ac sy'n awr yn fyw' (AG) (9)
21. Enfys yn codi o'r baw (3)
22. Darfu bwriad droi'n gynllwynio (11)

## I Lawr

2. Ruth yn troi'n ofnadwy (3)
3. Y gair i'w weld yng nghestyll y fro (1,4)
4. Pwyso canol y bedol (6)
5. Mae ef n'ôl yng ngafael y golygydd – fe'u gwelir o ben y mynydd (9)
6. Protest ynglyn a gwarth stydi anniben cyn dechrau'r dydd (11)
7. 'Roedd hiraeth am y ----- ----- -----
A phibau pêr y cerddor cudd' (IDH) (5,1'1,4)
11. Ai egwyl o'r sŵ yw gwyliau rhain? (9)
13. Yn swnio fel pryfed ond ddim mor fawr (3)
15. Gwasgu'r dinesydd i'r diwrnod (3)
17. Rhoi ebychiad mewn byd digalon, hanner glew wna'r anifail (6)
19. Diana yn sgwrsio ar yn ail yn ddoniol (5)
21. Cwch gwael yn Lloegr (3)

**Enillydd Croesair Rhif 198**

**Nia Williams, Creigiau**

**Atebion Croesair Rhif 198**

**Ar Draws:** 1. Dyma'r Ceidwad 7. Mesur 8. Golud 9. Dydd 10. Cynhyrfus 11. Negydu 12. Tinsel 15. Yn Geidwad 17. Nai 18. Unoli 19. Saethu 21. Tragwyddoldeb

**I Lawr:** 1. Duw a dyn sy'n un 2. Ras 3. Eironi 4. Digwyddiad 5. Adlef 6. A disgleirdeb 7. Meddyg 10 Cadeiriog 13.Sanau 14. Gwesty 16 Glowr 20. Eto

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Ebrill, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

# Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod o Gylch Cinio Cymraeg Caerdydd, ar nos Lun, 3 Chwefror, yng Ngwesty'r New House, Y Draenen. Pleser oedd croesawu Syr Emyr Jones-Parry, Llywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru a chyn Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, fel y siaradwr gwadd. Siaradodd Syr Emyr am ei yrfa fel llysgennad o dan y teitl "O Gwm Gwendraeth i Efrog Newydd ac yn ôl".

Ymunodd Syr Emyr â'r Swyddfa Dramor ar ôl derbyn ei addysg uwch yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd a Choleg y Santes Catharine, Caergrawnt, ac yn ystod ei yrfa aeth i Ganada, Madrid, a mwy nag unwaith i Frwsel - i'r Undeb Ewropeaidd ac i NATO, cyn gorffen fel Llysgennad y Deyrnas Gyfunol i'r Cenedlaethau Unedig yn Efrog Newydd.

Disgrifiodd Syr Emyr sut yr oedd rhai digwyddiadau hanesyddol wedi effeithio arno trwy newid cyd-destun gwleidyddol ei waith. Dechreuodd gyda'r etholiad pan ddaeth llywodraeth Margaret Thatcher i rym wrth iddo ddechrau ar ei waith yn y Gymuned Ewropeaidd. Yna, soniodd sut y bu i gwymp mur Berlin newid natur yr Undeb Ewropeaidd trwy ehangu'r nifer o'r aelodau yn sylweddol. Ystyriodd hefyd fethiant gwledydd y Gorllewin i weithredu'n effeithiol yn ystod y rhyfel yn Kosovo.

Gorffennodd wrth ystyried beth fyddai dyfodol a disgwyliadau Cymru fel cenedl, cenedl o'r un faint â nifer o aelodau'r Undeb Ewropeaidd.

Roedd yn amlwg o'r drafodaeth a ddilynodd ei araith a'r nifer o gwestiynau a ofynnwyd, bod y gynulleidfa nid yn unig wedi mwynhau'r noson ond hefyd wedi gwerthfawrogi'r profiad o glywed sylwadau un a oedd wedi bod yng nghanol nifer o ddatblygiadau mwyaf arwyddocaol ein hoes.

# Y DIGWYDDIADUR

## Mawrth

**Llun, 9 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd gyda'r Parch. Evan Morgan.
**Mawrth, 10 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Diwrnod Rhyngwladol y Merched: Panel Holi ac Ateb yn cynnwys Delyth Jewell a Laura McAllister, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm.
**Mercher - Iau, 11 a 12 Mawrth**
Cyflwynir dau gyflwyniad ar y Gyllideb gan Huw Aled Accountants yn Festri'r Tabernacl, Caerdydd ar ddydd Mercher, 11 Mawrth am 5yh ac ar fore Iau, 12 Mawrth am 8yb. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael.
**Gwener, 13 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Aled Roberts, Comisynydd y Gymraeg, ar y testun 'Defnyddio'r Iaith: Her Polisi Cymraeg 2050', yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, ar gornel Harriet St a Rhymney St, Cathays, CF24 4BX, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig.
**Gwener, 13 Mawrth**
Cyngerdd yn Eglwys Sant Ioan, Cilgant Sant Ioan, Treganna, yng nghwmni Côr Meibion Taf, Côr y Brythoniaid a Merched Plastaf, am 7.30pm. Tocynnau: £15 (oedolion); £5 (plant). Y tocynnau ar werth gan aelodau Côr Meibion Taf neu wrth y drws.
**Sadwrn, 14 Mawrth**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd sgwrs gan Rhian Williams (croeseirwraig *Y Dinesydd*) am y gweinidog a'r emynydd Nantlais. Yr un adeg bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 14 Mawrth**
Organathon yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais, rhwng 11.00am a 4.00pm.
**Llun, 16 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Llanedeyrn a Phentwyn ar y cyd â Chymdeithas Rhieni Ysgol Pen-y-groes. Noson yng nghwmni'r Gerddorfa Ukulele yn neuadd Ysgol Pen-y-groes, Bryn Celyn, Pentwyn, CF23 7EH, am 7.00pm. Croeso i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yr ardal ynghyd â disgyblion Blwyddyn 6 a hŷn yr Ysgolion Cymraeg lleol. Bydd casgliad gwerthfawrogiad ar ddiwedd y noson. Am ragor o wybodaeth, cysyllltwch â paulmorgan@ntlworld.com.
**Llun, 16 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd, yn Ystafell 0.77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
**Mercher, 18 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cwis gan Gwenda Morgan, Marian Lake a Mai Davies, yn festri Capel Minny Street am 1.30pm.
**Gwener, 20 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Bleddyn Owen Huws ar y testun 'Pris Cydwybod: T. H. Parry-Williams a Chysgod y Rhyfel Mawr', yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

## Ebrill

**Mercher, 1 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Kevin Davies ar y testun 'Croeso i'r Gwanwyn', yn festri Minny Street am 1.30pm.
**Iau, 2 Ebrill**
Trysorau'r Ffydd. Un o gyfres o gyfarfodydd o dan arweiniad yr Athro E. Wyn James sy'n edrych ar rai o uchelfannau ein llenyddiaeth Gristnogol. Ieuan Gwynedd a'i gylchgrawn, *Y Gymraes*, fydd dan sylw yn y cyfarfod hwn, gan ei bod yn 200 mlwyddiant geni Ieuan Gwynedd. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, ar gornel Harriet St a Rhymney St, Cathays, CF24 4BX, am 7.30pm. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Gwener, 3 Ebrill**
Cylch Cadwgan. Noson yng nghwmni'r awdur a dramodydd Heiddwen Tomos, yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf, am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.
**Llun, 6 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yn y New House Hotel, Y Ddraenen (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwraig wâdd: Meri Huws.
**Mercher, 8 Ebrill**
Cerddoriaeth yr Wythnos Fawr yng nghwmni Côr Caerdydd (Arweinydd: Gwawr Owen). Bydd y rhaglen yn cynnwys 'Y Croeshoeliad' gan John Stainer, diweddglo 'Myfi Yw' gan Linda Gittins, Penri Roberts a Derec Williams, a darnau gan Karl Jenkins a John Tavener. Yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, am 7.30pm.
**Iau, 9 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Cinio blasus yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Y gŵr gwadd fydd y cerddor enwog Euros Rhys. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysyllter â'r Llywydd, Rowenna E. Thomas (07811-802845 neu rowennat@gmail.com).
**Sadwrn, 11 Ebrill**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd Marc Evans yn sgwrsio am ei daith fel dysgwr. Yr un adeg bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Mawrth, 14 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Gwyn Roberts ar y testun 'Tryweryn' a Chyfarfod Cyffredinol, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm.
**Sadwrn, 18 Ebrill**
Datganiad Organ gan Carl Granger yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 12.30pm.
**Llun, 20 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan y Prifardd Cyril Jones ar y testun 'Llefydd a'u Lleisiau', yng Nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**



## Gwilym Dafydd

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael cyfle i sgwrsio gyda siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf."*

### Clonc Bore Llun Pughs Wenfô

Ar fore Llun, 10 Chwefror, es i i'r Fro i ddosbarthu copiau o'r Dinesydd. Dyma'r tro cyntaf i fi wneud hwn ar fore Llun. Dyma alw yn siop Mel yn Llyfrau Griffin, Penarth. Sylweddolais fod y llyfrgell yn agos felly gelwais yno am y tro cyntaf. Holais os oedd unrhyw un yn medru siarad Cymraeg – nac oedd! Gadewais bedwar copi i lyfrgelloedd y Fro. Yna ymlaen i siop Nisa yn Heol Caerdydd, Dinas Powys ac i'r Barri a gadael ugain copi gyda golygydd mis Mawrth!

Beth am alw gyda Janet Tabor, sylfaenydd Clonc Pughs, meddyliais. Roedd hi'n wlyb iawn erbyn hyn ond llwyddais ar ôl o leiaf un tro anghywir i ddarganfod Pughs ar y ffordd fawr. (Mae'n debyg y byddwn yn cofio Mis Bach, hynny yw, mis Chwefror 2020 fel yr un mwyaf gwlyb a gwyntog erioed – diflastod!)

Roedd deg yn y caffi / tŷ bwyta eithaf mawr. Ger arwydd y tai bach gwelais y cloncwyr Cymraeg brwdfrydig. Mae modd cael pymtheg yno weithiau. Ces i groeso a gwerthais saith copi! Felly dyma lun o Glonc Pughs yn ymddangos yn y Dinesydd am yr ail dro! Dyma'r enwau a diolch i Janet amdanynt: Bernard, Heulwen, Sylvia, Ann, Janet, Trish, Ann, Glynis ac Ian. Gwelir llaw dyn yn y llun ond erys yn ddienw! Ond prawf gweladwy bod deg yno.

Yn fy absenoldeb anorfod o'r Awr Hapus, Gwesty Pentref, Coryton, gofynnais i Eirian werthu rhifyn Chwefror yno. Roedd deg yno hefyd a gwerthodd hi saith copi. Gêm gyfartal felly!

Mae nifer dda iawn o siaradawyr Cymraeg newydd yn prynu ac yn darllen y Dinesydd yn fisol. Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth. Os ydych am fis o enwogrwydd beth am anfon cant o eiriau a llun os dymunwch i eirianagwilym@gmail.com



*Clonc Pughs*





*Clonc Menter Caerdydd*



*Martin yn Sbaen*

### Clwb Gwylio Adar

Am y tro cyntaf yn ein hanes, ar gyfer ein chweched cyfarfod, mentron ni ymhellach nag ardal Fferm y Fforest yn Yr Eglwys Newydd.

Daeth wyth ynghyd yn Starbucks, Dunleavy Drive ger Asda Bae Caerdydd, ar fore Sadwrn, 1 Chwefror.

Jon Gower oedd wrth y llyw a gyda Dylan Foster Evans yno hefyd, dysgon ni lawer am adar a phynciau eraill. Profiad newydd i rai ohonom oedd cerdded ar hyd yr afon Elai a syllu ar olygfeydd apelgar yn yr ardal rhwng y Bae a Phenarth.

Daniel Jenkins-Jones fydd yn arwain ar fore Sadwrn, 7 Mawrth ym Mae Caerdydd. Croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni ar fore Sadwrn cyntaf y mis a dilynwch @GwilymDafydd ar Trydar i dderbyn mwy o fanylion.

### Amser Jôc gyda Huw James

Beth oedd achos ei farwolaeth e? O…dim byd difrifol.

### Clonc Menter Iaith Caerdydd

Ar fore Mawrth, 25 Chwefror, a ni'n dau lawr dre i ddathlu fy mhenblwydd diweddaraf, galwon ni yn y Clonc yn Jams Hywel yng nghwmni rhyw ddeunaw arall. Maen nhw ac eraill yn cyfarfod yno yn gyson ar foreau Mawrth, 10.30-12.00 o'r gloch. Siaradon ni gyda Helen a Justin ac roedd Cath Jobbins wrth law. Mae Justin yn un o denoriaid Côr Meibion Taf. Mae'r tri yn siaradwyr iaith gyntaf ac yn helpu siaradwyr Cymraeg newydd i ddod yn rhugl. Afraid dweud eu bod hi'n bwysig bod dysgwyr weithiau yn cael cyfle i sgwrsio gyda siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

Pam na alwch chi draw bob bore Mawrth am 11.00 i fwyty Mr Villa, Y Barri? Mae criw hwyliog yn parablu yno'n gyson! *(Golygydd)*

## CLWB DRAMA I BLANT

Mae Menter Iaith Bro Morgannwg yn cynnal Clwb Drama i blant bob nos Fawrth, ac eithrio gwyliau'r ysgol, yng Nghanolfan Gymunedol Penarth Isaf, rhwng 5:30 a 6:30pm. Mae'r clwb yn agored i blant o Flwyddyn 2 hyd at Flwyddyn 6 ac mae'n ffordd wych o ddatblygu hyder a dysgu sgiliau actio a pherfformio mewn awyrgylch hamddenol a hwyliog.

Arweinydd y clwb ydy Sian Elin Williams, sydd yn wreiddiol o Lambed, ond bellach yn astudio MA cyfarwyddo yng Nghaerdydd. Yn ei hamser sbâr, mae Sian Elin hefyd yn perfformio ac yn diddanu plant o dan yr enw 'Siani Sionc'. Mae Siani Sionc yn gymeriad llawn egni ac mae hi'n dysgu plant i ddawnsio, canu, chwerthin a chael hwyl. Mae Sian Elin yn dod â'r un egni i'r Clwb Drama ym Mhenarth ac mae plant o ysgolion cynradd ar draws y Fro yn dod i'r clwb yn wythnosol i fwynhau ac i ddatblygu sgiliau newydd.

Yn ystod y sesiynau, mae cyfle i ddysgu pob math o sgiliau drama gan gynnwys sgriptio, actio byrfyfyr, sut i ddefnyddio'r llais a'r corff, adeiladu hyder a gwaith tîm. Mae hefyd yn gyfle arbennig i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol, os nad yw hynny'n bosib yn y cartref, a hynny mewn modd anffurfiol a hwyliog.

Mae'r clwb yn costio £4 y sesiwn neu £24 am 6 wythnos ac mae modd archebu lle i'ch plentyn ar wefan: menterbromorgannwg.org neu ffoniwch 02920689888 am fwy o wybodaeth.

## Côr Caerdydd

Ar nos Fercher Ebrill 8ed bydd Côr Caerdydd o dan arweiniad Gwawr Owen yn cyflwyno detholiad o gerddoriaeth yr Wythnos Fawr yn Eglwys Dewi Sant am 7.30pm. Bydd y gyngerdd yn cynnwys *Y Croeshoeliad* gan John Stainer lle mae cyfle i'r gynulleidfa ymuno yn yr emynau cynulleidfaol. Yn ystod hanner gyntaf y gyngerdd bydd cyfle i glywed rhai unawdau cysegredig a darnau corawl gan Karl Jenkins, John Tavener a diweddglo grymus yr oratorio *Myfi Yw* gan Linda Gittins, Penri Roberts a Derec Williams. Dewch i brofi gwledd o gerddoriaeth ar gyfer un o Wyliau pwysicaf y calendr Cristnogol.

*Gwawr Owen Roberts*
Arweinydd Côr Caerdydd

## PÊL-DROED DINAS CAERDYDD

Newydd weld Caerdydd yn colli i Nottingham Forest, a chael dim ond un pwynt allan o'r tair gêm ddiwethaf, mae llawer o bobl yn derbyn na fydd modd cyrraedd y gemau ail-gyfle nawr. 'Diolch byth am hynny' mae rhai yn dweud oherwydd ein bod ni mor wael!

Er colli ein dwy gêm ddiweddara dim ond chwe phwynt sydd rhynddom a'r gemau ail gyfle gyda 12 gêm i fynd felly dyw e ddim yn gwbl amhosibl ac mae'n dangos pa mor wael yw'r bencampwriaeth eleni.

Mae problemau a methiannau diweddar Caerdydd yn troi o gwmpas anaf i Lee Tomlin, sydd mae'n debyg allan am weddill y flwyddyn wedi'r anaf wrth ymarfer. Pa fath o ymarfer sy'n anafu eich chwaraewyr eich hunain? Rhyfedd i feddwl bod chwaraewr nad oedd yn ddigon da i fod yn y tim nawr mor bwysig ein bod ni'n methu byw hebddo.

*C'est la vie!* Bydd, mi fydd hi'n amser prynu tocyn tymor am y flwyddyn nesaf yn fuan a byddaf yn dechrau'r daith a'r artaith unwaith eto.

*Steffan Webb*


HeatGlow
Plymio a Gwresogi

Gwresogi
Gwresogi tanlawr | Gwasanaethu Boeler | Gosod Boeler | Gosod Rheiddiaduron | Tystysgrif Nwy

Ystafell ymolchi
Dylunio | Gosod | Adnewyddu

Plymio
Toiledau | Plymio Cyffredinol | Dŵr yn Gollwng

Pam dewis Heatglow
- Gwasanaeth holl Gymraeg
- Gwasanaeth proffesiynol rhagorol
- Peirianwyr nwy profiadol iawn gyda dros 25 mlynedd o brofiad
- Pob agwedd o wresogi, nwy a plymio
- Mae ein holl waith o dan warant
- Gwasanaeth ôl ofal o'r radd flaenaf

Cymraeg

www.heatglow.co.uk
Ffoniwch: 07710827477